# Dynodi Gwasanaethau Dethol Teledu

## Datganiad o Egwyddorion a Dulliau

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 23 Ebrill 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-designation-of-television-selection-services

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Cefndir ..... 5
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ..... 9


## Atodiad


A1. Datganiad o Egwyddorion a Dulliau ..... 27

A2. Asesiadau effaith a dyletswyddau cyffredinol ..... 33

A3. Fframwaith Cyfreithiol ..... 36

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Deddf Cyfryngau 2024 wedi cyflwyno trefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein newydd sy'n canolbwyntio ar lwyfannau teledu cysylltiedig sy'n galluogi pobl i ddewis a chael gafael ar raglenni a chwaraewyr teledu sy'n cael eu darparu drwy'r chwaraewyr hynny. Bydd y drefn newydd hon yn mynnu bod llwyfannau teledu cysylltiedig sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau bod BBC iPlayer,[1] ac unrhyw chwaraewyr teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd wedi'u dynodi gan Ofcom, yn ogystal â'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch.

1.2 Cyfeirir at lwyfannau teledu cysylltiedig a allai ddod o fewn cwmpas y rheolau newydd hyn yn y ddeddfwriaeth fel 'gwasanaethau dethol teledu' (TSS). Cyn dynodi unrhyw un ohonynt, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom yn gyntaf yn nodi ein hargymhellion ar ddynodi'r gwasanaethau hyn. Cyn darparu unrhyw adroddiad o'r fath, rhaid i ni gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud yr argymhellion hynny.[2]

1.3 Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn egluro ein dull gweithredu arfaethedig ochr yn ochr â Datganiad drafft o Egwyddorion a Dulliau (Datganiad).[3] Cawsom dri ymateb ar ddeg i'r ymgynghoriad hwnnw, ac fe wnaethom eu hystyried yn ofalus cyn llunio fersiwn terfynol y Datganiad.[4] Yn y ddogfen hon, rydym yn egluro'r rhesymeg dros ein penderfyniadau. Mae'r Datganiad terfynol yn **Atodiad 1** i'r ddogfen hon.

1.4 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ofyn hefyd am farn ar amrywiaeth o gwestiynau atodol. Roedd y rhain yn ymwneud â'n syniadau newydd ar sut i fynd i'r afael â'n hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn ddiolchgar i randdeiliaid am eu hymgysylltiad ar y pwyntiau hyn, a byddwn yn ystyried eu sylwadau wrth gynhyrchu'r adroddiad hwnnw, y bwriadwn ymgynghori arno yn ystod haf 2025.[5]

## Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid, a oedd gan fwyaf yn cefnogi'r Datganiad drafft, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw newidiadau ac i fwrw ymlaen â'r Datganiad fel y mae yn yr ymgynghoriad, sy'n nodi'r egwyddorion a'r dulliau canlynol:

- **Nifer y bobl sy'n defnyddio TSS yn y DU ac a yw'r nifer hwnnw'n sylweddol.** Wrth fesur nifer y defnyddwyr yn y DU, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Gall hyn olygu defnyddio procsi os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy. Wrth benderfynu a yw nifer o ddefnyddwyr yn sylweddol, byddwn yn ystyried a yw ein penderfyniad yn cyfrannu at yr amcan polisi i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang. Byddwn yn gosod y trothwy mewn ffordd gymesur sy'n ystyried y manteision a'r rhwymedigaethau rheoleiddio posibl ar ddarparwyr TSS a reoleiddir ac ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae eu

[1] Bydd BBC iPlayer yn cael ei ddynodi'n awtomatig (adran 362AA(1)(a) Deddf Cyfathrebiadau 2003).

[2] Adran 362AG(9) o'r Ddeddf. Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw ond rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd (adran 362AG(10) o'r Ddeddf)

[3] Ofcom, 2024 Ymgynghoriad:Dynodiad Gwasanaethau Dethol Teledu Yr egwyddorion a'r dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol (yr 'ymgynghoriad').

[4] Rydym wedi cyhoeddi pob ymateb nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.

[5] I gael amserlen fanwl o'n proses weithredu, gweler: Ofcom, 2024, Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau.

chwaraewyr teledu wedi'u dynodi. Er y byddwn yn ceisio sefydlogrwydd rheoleiddiol ar gyfer gwasanaethau dynodedig, mae penderfynu pa lefel o ddefnydd sy'n arwyddocaol yn dibynnu ar y cyd-destun ac felly byddwn yn ystyried amodau'r farchnad a ffactorau perthnasol eraill bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad.

- **Y modd y defnyddir TSS.** Wrth asesu'r ffyrdd mae TSS yn cael ei ddefnyddio, rydyn ni'n cydnabod y gallai pobl fod yn berchen ar ddyfeisiau gwahanol i gael mynediad at chwaraewyr teledu ond nad ydynt yn eu defnyddio'n gyfartal ac efallai na fyddant yn defnyddio rhai dyfeisiau o gwbl. Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Byddwn yn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.
- **Swyddogaeth dechnegol TSS.** Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel TSS sy'n cael ei reoleiddio os gall ddarparu chwaraewyr dynodedig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gall gyflwyno chwaraewyr teledu a rhaglenni sydd â lefelau gwahanol o amlygrwydd, a gall gynnwys nodweddion i sicrhau bod chwaraewyr a rhaglenni ar gael i bobl ag anableddau. Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfyngiadau technegol gyda rhai fersiynau hŷn o TSS a dyfeisiau hŷn cysylltiedig sy'n dal ar gael yn y farchnad, a byddwn yn ystyried arferion y diwydiant a materion perthnasol eraill i hysbysu ein hadroddiad.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch rhai agweddau ar ein dulliau a'n hegwyddorion arfaethedig a sut y gallent gael eu cymhwyso yn ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym wedi ymateb lle bo hynny'n briodol yn y ddogfen hon a byddwn yn dychwelyd at bwyntiau eraill a godwyd wrth i ni baratoi ein hadroddiad cyntaf.

# 2. Cefndir

## Amcanion y drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd dan y Ddeddf Cyfryngau

2.1 Mae arferion gwylwyr y DU wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae pobl yn gwylio mwy o deledu ar-lein, sy'n cael ei sbarduno gan ddefnydd nifer fawr o bobl o fand eang, amrywiaeth o ddyfeisiau cysylltiedig â galluedd fideo, a llwyfannau a gwasanaethau newydd sy'n darparu catalogau enfawr ar-alw, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol â chyllideb fawr.[6] Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r cynnydd yn y dewis a alluogir gan newid technolegol wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando llinol.[7]

2.2 Ar ôl sawl degawd pan roedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthu llinol, mae darlledwyr wedi bod yn addasu i'r newidiadau hyn ac i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd heddiw. Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU wedi datblygu chwaraewr sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw a thrwyddedig, y gellir cael gafael arnynt ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltiedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at y mathau hyn o chwaraewyr fel 'gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd' (IPS).[8]

2.3 Er bod y fframwaith rheoleiddio a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 wedi sicrhau bod sianeli teledu llinol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[9] wedi bod ar gael yn eang ac yn hawdd dod o hyd iddynt mewn amserlenni rhaglenni electronig am ddegawdau, hyd nes y pasiwyd Deddf y Cyfryngau, nid oedd unrhyw reolau i sicrhau amlygrwydd cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylcheddau cyfryngau ar-lein.

2.4 Mae'r drefn newydd a gyflwynwyd gan Ran 2 o'r Ddeddf Cyfryngau – a oedd yn mewnosod Rhan 3A yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) – yn mynd i'r afael â hyn drwy adeiladu ar y fframwaith amlygrwydd presennol ar gyfer teledu llinol a chynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig,[10] sy'n cael eu diffinio fel TSS gan y Ddeddf.

2.5 Amcan craidd y drefn newydd hon yw sicrhau'r manteision gorau posibl i gynulleidfaoedd drwy sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael i'r "mwyafrif helaeth o'r boblogaeth."[11] O'r herwydd, wrth nodi'r Datganiad (**Atodiad 1**) a phan fyddwn yn cymhwyso'r egwyddorion a'r dulliau mewn unrhyw adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol,

---

[6]Mae dadansoddiad manylach o'r tueddiadau cyffredinol hyn ar gael yn adroddiadau Ofcom Dyfodol Dosbarthu Teledu a Chyfryngau'r Genedl 2024.
[7] Ofcom, 2024, Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Cylch gorchwyl; ac Ofcom, 2024, Cyfryngau'r Genedl y DU 2024
[8] Diffinnir 'gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd' yn adran 362AA(10) ac (11) o'r Ddeddf. I gael rhagor o wybodaeth am ddynodiad IPS, gweler: Ofcom, 2025, Ymgynghoriad: dynodi gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
[9] Mae sianeli teledu llinol Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys holl wasanaethau teledu darlledu cyhoeddus y BBC, pob un o wasanaethau Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C.
[10] Ofcom, 2024, Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith.
[11]Deddf Cyfryngau 2024, Nodyn Esboniadol:Cefndir Polisi. Fe wnaeth yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon baratoi'r Nodiadau Esboniadol i helpu darllenwyr i ddeall y Ddeddf Seneddol newydd hon. Maent yn rhoi gwybodaeth gefndir am ddatblygiad polisi, ond nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf ac nid ydynt yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

byddwn yn ceisio sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn y DU. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol, sy'n cael eu crynhoi yn y fframwaith cyfreithiol (**Atodiad 3**).

## Beth yw TSS dan y Ddeddf?

2.6 Dan y Ddeddf, diffinnir TSS ar sail pedwar maen prawf cronnus, yn dibynnu ar ba un y mae'n rhaid i'r TSS:

a) "gael eu darparu drwy'r rhyngrwyd";
b) "gael eu darparu mewn cysylltiad ag Offer Teledu Rhyngrwyd (ITE);
c) "gynnwys cyflwyno IPS"; a
d) "alluogi defnyddiwr i ddewis rhwng IPS neu raglenni a ddarperir gan yr IPS hynny a chael mynediad atynt, neu'r ddau."[12]

2.7 Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw gosod y diffiniad ar gyfer ITE mewn rheoliadau.[13] Mae'r rheoliadau cychwynnol, a wnaed ym mis Hydref 2024,[14] yn cyfeirio at 'setiau teledu clyfar'[15] a 'dyfeisiau ffrydio', fel blychau pen-set a ffyn ffrydio,[16] fel ITE.

2.8 Er bod pobl yn gallu defnyddio gwahanol fathau o ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd i wylio'r teledu, mae tystiolaeth yn dangos bod defnyddio teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio bellach yn gyffredin mewn cyfran uchel o gartrefi yn y DU. Yn 2024, mae dros 64 miliwn yn cael eu defnyddio'n weithredol mewn cartrefi yn y DU, i fyny o 52 miliwn yn 2019.[17]

2.9 Er mai ITE yw'r dyfeisiau ffisegol y mae gwylwyr yn eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys ar eu setiau teledu, y llwyfannau meddalwedd sydd wedi'u hintegreiddio i'r dyfeisiau hynny sy'n galluogi gwylwyr i lywio, dethol a gwylio rhaglenni.

2.10 Mae gan bob llwyfan meddalwedd ddwy elfen graidd[18] sy'n berthnasol i gyflwyno cynnwys:

a) **Rhyngwyneb defnyddiwr**, y mae gwylwyr yn ei ddefnyddio i ganfod a dewis cynnwys, fel arfer gyda chymorth rheolydd pell. Mae rhyngwynebau defnyddwyr fel arfer yn trefnu apiau ffrydio, gwasanaethau ar-alw a chynnwys yn dabiau a rhesi, a all gynnwys meysydd cynnwys sy'n cael eu hargymell yn seiliedig ar algorithmau (e.e. rhes 'gwylio nesaf') yn ogystal â meysydd cynnwys y gall darparwyr cynnwys eu curadu eu hunain (e.e. rhes o raglenni sydd 'ar gael ar ITVX ar hyn o bryd').
b) **System weithredu (OS)**, sy'n rheoli adnoddau a gweithrediadau'r ddyfais ac yn rheoli'r rhyngwyneb defnyddwyr. Ymhlith swyddogaethau eraill, mae'n pennu pa gynnwys sy'n

[12] Adran 362AE(1) o'r Ddeddf.
[13] Adran 362AE(2) o'r Ddeddf.
[14] The Internet Television Equipment Regulations 2024 (2024/1056).
[15] Mae Erthygl 2(2) o'r rheoliadau yn dweud bod "teledu clyfar" yn golygu "teledu sy'n gallu (a) cysylltu â'r rhyngrwyd; a (b) sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer (i) galluogi'r defnyddiwr i ddewis a chael gafael ar raglenni; a (ii) dangos rhaglenni".
[16] Mae Erthygl 2(2) y rheoliadau yn dweud bod "dyfais ffrydio" yn golygu "offer sy'n gallu (a) cysylltu â'r rhyngrwyd; (b) sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer (i) galluogi'r defnyddiwr i ddewis a chael mynediad at raglenni; a (ii) dangos rhaglenni; a (c) ddim yn gallu dangos rhaglenni ar ei ben ei hun"
[17] Omdia, 2024. I gael dadansoddiad manylach o'r duedd hon, edrychwch ar dudalennau 9-13 o'r ymgynghoriad.
[18] I gael dadansoddiad manylach o lwyfannau meddalwedd a'r farchnad setiau teledu cysylltiedig gysylltiedig, gweler: Ofcom, 2024, Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig.Y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, tudalennau 9-10, a thudalennau 9-13 o'r ymgynghoriad.

cael ei ddangos i wylwyr drwy reoli swyddogaethau chwilio, arddangos a systemau argymell. Mae angen i ddarparwyr cynnwys ddatblygu apiau, fel yr IPS a gynigir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n gydnaws â'r system weithredu.

2.11 Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, rydym o'r farn bod y llwyfannau meddalwedd a ddefnyddir ar setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio yn bodloni meini prawf TSS a nodir yn y Ddeddf Cyfryngau.[19] Mae'r llwyfannau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi gwylwyr i gael gafael ar apiau teledu a'u cynnwys, a dyma'r ffordd mae'r deunydd hwn yn cael ei gyflwyno. Maen nhw hefyd yn cael eu darparu drwy'r rhyngrwyd a thrwy ddefnyddio dyfeisiau (teledu clyfar, a dyfeisiau ffrydio fel blychau pen-set a ffyn ffrydio) y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u nodi fel ITE.[20]

2.12 Rydym yn cydnabod bod nifer o lwyfannau gwahanol ar gael yn y DU sydd â nodweddion gwahanol. Dyluniwyd y rhan fwyaf o'r prif lwyfannau meddalwedd i gael eu defnyddio ar ddyfais â brand darparwr y llwyfan hwnnw, ond mae rhai cwmnïau hefyd yn trwyddedu eu llwyfan meddalwedd i gwmnïau caledwedd trydydd parti.[21]

# Argymell pa fathau o TSS y gellir eu dynodi

2.13 Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw creu rheoliadau i ddynodi TSS, a elwir wedyn yn 'TSS wedi'i reoleiddio' neu'n 'RTSS'. Rhaid i ddarparwr pob RTSS gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.[22]

## Pwerau dynodi

2.14 O dan y Ddeddf, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi TSS drwy reoliadau gan ddefnyddio dau bŵer: drwy bennu TSS unigol, neu drwy ddisgrifio TSS.[23] Bydd rheoliadau dynodi unigol yn enwi TSS unigol i'w reoleiddio. Bydd rheoliadau dynodi drwy ddisgrifiad yn nodi disgrifiad o'r TSS sydd i'w reoleiddio,[24] a bydd unrhyw TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hwnnw yn cael ei ddynodi.[25]

2.15 Dim ond ar ôl cael adroddiad gan Ofcom yn nodi ein hargymhellion ar arfer y pŵer dynodi perthnasol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau dynodi.[26] Efallai y byddwn yn argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi TSS gan ddefnyddio un pŵer neu'r ddau

[19] Gweler paragraff 3.15 o'r ymgynghoriad.
[20] Gweler paragraffau 2.42 a 3.13 o'r ymgynghoriad.
[21] Gweler paragraffau 2.42 a 3.13 o'r ymgynghoriad.
[22] Mae Adran 362AE (5) o'r Ddeddf yn nodi mai'r un, a'r unig un, y dylid ei drin fel darparwr y TSS yw'r person sydd â rheolaeth gyffredinol dros y modd y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr.
[23] Adran 362AF(1) o'r Ddeddf.
[24] Mae adran 362AF(3) yn datgan y caiff y rheoliadau osod disgrifiad o'r TSS, yn benodol drwy gyfeirio at y TSS sy'n cael ei ddefnyddio, neu'n cael ei ddefnyddio mewn modd penodedig, gan ddim llai na nifer penodedig o ddefnyddwyr; y dyddiad yr oedd ar gael am y tro cyntaf yn y DU; a'r swyddogaethau y mae'n gallu eu cyflawn neu y mae ganddo'r galluedd i'w cyflawni.
[25] Rhaid i ddarparwyr TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hysbysu Ofcom o dan adran 362AH o'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw dynodi'n dibynnu ar hysbysu – bydd TSS yn cael ei ddynodi cyn gynted ag y bydd yn bodloni'r disgrifiad.
[26] Efallai y byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ein liwt ein hunain, neu efallai y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i ni baratoi un, ac os felly rhaid i ni wneud hynny. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gyngor Ofcom, gall roi disgrifiad penodol i ni o'r TSS sydd i'w ddynodi (adran 362AG(6) o'r Ddeddf).

bŵer.[27] Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn egluro yn ein hadroddiad pam rydym wedi argymell defnyddio pŵer penodol.

## Materion i'w hasesu

2.16 Pan fyddwn yn paratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion ar ddynodiadau unigol, rhaid i ni ystyried amryw o'r ffactorau a nodir yn y Ddeddf:

a) nifer defnyddwyr TSS penodol yn y DU ac a yw'r nifer hwnnw'n sylweddol;
b) y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio;
c) a yw'r gwasanaeth yn gallu gweithredu fel RTSS, gan gynnwys unrhyw addasiadau sydd eu hangen; ac
d) unrhyw faterion eraill rydym yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion hyn.[28]

2.17 Dim ond os ydynt o'r farn ei fod yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl yn y DU y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi TSS unigol. [29]

2.18 Pan fyddwn yn paratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion ynghylch dynodiad drwy ddisgrifiad, rhaid i ni gynnwys pa TSS sy'n debygol o fodloni'r disgrifiad ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r asesiad hwn yn ein barn ni.[30]

2.19 Wrth lunio'r Datganiad (**Atodiad 1**), rydym wedi amlinellu sut rydym yn bwriadu asesu'r ffactorau hyn yn ein hadroddiad.

[27] Adran 362AG(1) o'r Ddeddf.
[28] Adran 362AG(4) o'r Ddeddf.
[29] Adran 362AF(2) o'r Ddeddf.
[30] Adran 362AG(5) o'r Ddeddf. Fel y nodir ym mharagraff A1.25 **Atodiad 1**, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol baratoi disgrifiad o'r TSS y mae'n credu y dylid ei ddynodi, neu gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain (adran 362AG(1) o'r Ddeddf).

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

3.1 Wrth baratoi adroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol gydag argymhellion ynghylch dynodi'r TSS, rhaid i ni ystyried amrywiaeth o ffactorau a nodir yn y Ddeddf, fel y nodir isod. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom gynnig yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r ffactorau hynny, gan asesu effaith y cynigion hynny a gofyn a oedd rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion ar gyfer pob ffactor.

3.2 Cawsom dri ymateb ar ddeg i'n hymgynghoriad. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn yn ofalus wrth gwblhau'r Datganiad ac yn yr adran hon rydym yn nodi ein hymateb i'r materion a godwyd gan randdeiliaid cyn nodi ein penderfyniadau.[31] Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydym wedi ystyried eu heffaith a'n dyletswyddau statudol perthnasol.[32] Rydym yn egluro yn Atodiad 2 sut mae ein penderfyniadau'n cyd-fynd â'r dyletswyddau hynny ac yn nodi ein hasesiadau effaith terfynol, gan gynnwys ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Nifer y defnyddwyr TSS

### Yr hyn a ddywedom ni

3.3 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ni gynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU:

a) Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio TSS.
b) Gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd defnyddwyr os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy.
c) Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob TSS i sicrhau triniaeth deg.[33]

3.4 Roedd y cynnig hwn yn ymwneud â'r ddau argymhelliad ar ddynodi unigol a sefyllfa lle mae disgrifiad o ddynodiad yn cyfeirio at nifer y defnyddwyr.[34]

**Cwestiwn Ymgynghori 1**

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU?

[31] Fe wnaethom hefyd ofyn tri chwestiwn atodol i'r ymatebwyr ynghylch ein syniadau newydd am sut y gallwn fynd ati i gyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol pe bai'r egwyddorion a'r dulliau a gynigir yn yr ymgynghoriad yn cael eu rhoi ar waith. Fel y nodir ym mharagraffau 1.9, A4.2 a A4.3 o'r ymgynghoriad, gan fod ymatebion i'r cwestiynau hynny'n berthnasol i baratoi ein hadroddiad cyntaf, byddwn yn eu hystyried bryd hynny ac yn rhoi sylw iddynt yn ein hymgynghoriad ar yr adroddiad hwnnw, ochr yn ochr ag unrhyw fewnbwn ychwanegol rydym yn credu sy'n berthnasol i'n hargymhellion.
[32] Nodir y dyletswyddau hyn yn y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 3.
[33] Paragraffau 4.41 A1.16 a A1.28 o'r ymgynghoriad.
[34] Paragraff 4.15 o'r ymgynghoriad.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.5 Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU.[35]

3.6 Mynegodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys S4C a Channel 4, [redacted] gefnogaeth i'n cynnig i ddefnyddio mesurau procsi lle bo angen, er enghraifft, oherwydd nad oes niferoedd defnyddwyr unigol dibynadwy ar gael ar hyn o bryd.

3.7 Roedd y BBC yn argymell y dylai tystiolaeth fod yn "gynhwysfawr, gwrthrychol a diduedd"[36] ac roedd ymatebydd arall [redacted] yn tynnu sylw at bwysigrwydd tryloywder ynghylch defnyddio procsi o'r fath ac yn gofyn i'r diwydiant gael y cyfle i roi adborth arno.

3.8 Nododd un ymatebydd [redacted] y gallai rhai ITE ddarparu mwy nag un TSS.[37] Rhoddodd yr enghraifft y gallai System Weithredu'r gwneuthurwr fod ar gael ynghyd â System Weithredu trydydd parti ar rai dyfeisiau, a gofynnodd am eglurder ynghylch sut y gellir trin achosion o'r fath o dan y fframwaith a pha TSS fyddai'n cael ei ystyried wrth asesu nifer y defnyddwyr.

3.9 Pwysleisiodd Sky nad nifer y defnyddwyr ddylai fod yr unig fater y mae Ofcom a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei ystyried, wrth ddynodi drwy ddisgrifio, gan y dylai penderfyniadau gael eu llywio gan agweddau perthnasol eraill ar y fframwaith dynodi, yn enwedig swyddogaeth dechnegol y TSS.[38]

## Ein hymateb

3.10 Rydym yn cytuno â'r BBC y dylai'r data rydym yn dibynnu arno fod yn gynhwysfawr, yn wrthrychol ac yn ddiduedd. Dyna pam ein bod wedi dweud yn y Datganiad y byddwn yn seilio ein hargymhellion ar y data gorau sydd ar gael ac yn defnyddio methodoleg gyson.

3.11 O ran pryderon am dryloywder, bydd cyfle i randdeiliaid roi adborth ar ein hasesiad o niferoedd defnyddwyr, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o brocsi, bob tro y byddwn yn ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.12 Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd gan randdeiliaid ynghylch ITS sy'n cynnig mwy nag un TSS, yn amodol ar gyfyngiadau'r dystiolaeth orau sydd ar gael, lle mae mwy nag un TSS ar un ITE, byddwn yn ceisio eu cyfrif fel TSS ar wahân.

3.13 Yn olaf, rydym yn cytuno â Sky y gallai fod yn briodol ystyried materion eraill heb law am nifer defnyddwyr ar gyfer dynodi yn ôl disgrifiad. Nodwyd hynny yn y Datganiad drafft ym mharagraffau A1.3128-A1.31, ac nid ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau pellach i fynd i'r afael â'r pwynt hwn.

[35] Ymateb Everyone TV, t.1; ymateb y BBC, t.1; ymateb Samsung, t.1; ymateb S4C, t.1; ymateb YouView, t.1; ymateb Channel 4, t.1 [redacted]
[36] Ymateb y BBC, t16.
[37] [redacted]
[38] Ymateb Sky, t.9.

## Ein penderfyniad

3.14 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer defnyddwyr TSS yn y DU, fel y nodir isod.

| **Egwyddorion a Dulliau ar gyfer cyfrifo nifer y defnyddwyr** |
|---|
| Er mwyn asesu'r mater hwn, bydd angen i Ofcom asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br><br>I gyflawni hyn, byddwn:<br><br>a) Yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio gwasanaeth.<br><br>b) Efallai'n defnyddio procsi ar gyfer nifer defnyddwyr os ydym o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy.<br><br>c) Yn defnyddio methodoleg gyson wrth asesu pob TSS i sicrhau ymdriniaeth deg. |

# Nifer sylweddol o ddefnyddwyr

## Yr hyn a ddywedom ni

3.15 Yn yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth ystyried yr hyn sy'n nifer sylweddol o ddefnyddwyr TSS yn y DU:

a) Wrth osod y trothwy hwn, ein hamcan polisi fydd sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang.

b) Byddwn yn ystyried pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein dynodiadau a argymhellir o fudd i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gan gydnabod y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar y darparwr RTSS ac ar ddarparwyr IPS dynodedig (DIPS), ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni. [39]

3.16 Yn ogystal, rydym yn egluro, er y byddem, yn gyffredinol, yn argymell dynodi TSS ar y trothwy neu'n uwch, y gallem, mewn rhai amgylchiadau, ystyried ei bod yn briodol peidio â gwneud hynny. Yn y naill achos neu'r llall, byddem yn egluro pam ein bod wedi defnyddio dull penodol. [40]

**Cwestiwn Ymgynghori 2**

[39] Paragraffau 4.23 a A1.17 o'r ymgynghoriad.
[40] Paragraffau 4.23 a A1.18 o'r ymgynghoriad.

Ydych chi’n cytuno â’n hegwyddorion a’n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw nifer y defnyddwyr TSS yn y DU yn ddigonol?

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.17 Roedd ymatebwyr yn cytuno’n bennaf â’n hegwyddorion a’n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw nifer defnyddwyr y TSS yn sylweddol.[41] Fodd bynnag, cafwyd sawl cais am fwy o eglurder.

3.18 Gofynnodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Sky,[42] [redacted] i ni egluro ymhellach yr hyn a olygwn wrth ‘sylweddol’ ac ‘ar gael yn eang’, ac i ddarparu enghreifftiau o’r TSS y byddem fel arfer yn ystyried bod ganddo nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y DU.

3.19 Roedd achosion sydd ‘ar y ffin’ yn faes arall lle’r oedd ymatebwyr yn gofyn am eglurhad. Gofynnodd Channel 4 am ragor o fanylion ynghylch sut byddem yn ymdrin â sefyllfa lle mae nifer defnyddwyr TSS ychydig yn is na’r trothwy ond bod potensial clir ar gyfer twf.[43] Yn yr un modd, gofynnodd S4C i ni egluro pam y gallem ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi TSS os yw’n uwch na’r trothwy, ond gyda nifer defnyddwyr sy’n gostwng.[44] Roedd gan ymatebwyr awgrymiadau gwahanol ar gyfer sut y gallem ddelio ag achosion o’r fath, gan gynnwys ystyried y potensial i dyfu,[45] data sy’n dangos tueddiadau hanesyddol yn y defnydd o TSS[46] a data demograffig.[47]

3.20 Mewn rhai ymatebion, tynnodd rhanddeiliaid sylw at oblygiadau masnachol dynodi TSS ac effeithiau negyddol posibl hyn ar gystadleuaeth ac arloesedd yn y farchnad TSS. Soniodd un rhanddeiliad enw wedi'i ddal yn ôl 1 am y posibilrwydd o sefyllfa “yr iâr a’r wy” gan nad yw’r gyfundrefn ond yn gosod rhwymedigaeth i gynnig DIPS i RTSS (yn hytrach na phob TSS). Roedd o’r farn, heb fynediad at DIPS, na fyddai TSS newydd yn gallu sicrhau digon o raddfa i fodloni’r trothwy ar gyfer cael eu dynodi. Roedd yn cynnig y dylai DIPS fod ar gael i unrhyw TSS sy’n bodloni set o safonau technegol y cytunwyd arnynt.[48] Roedd rhanddeiliaid eraill yn poeni mwy am leihau’r baich rheoleiddio ar ddarparwyr newydd, gan gydnabod hefyd bod angen i Ofcom ystyried dynodi TSS newydd y rhagwelir y bydd yn tyfu’n gyflym.[49]

3.21 Gwnaeth rhanddeiliaid awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gallem ddelio ag amrywiadau yn nifer defnyddwyr y TSS:

a) Awgrymodd ITV, ar ôl dynodi TSS, y dylai dynodiad o’r fath aros yn ei le am gyfnod penodol oni bai fod newid sylweddol yn yr amgylchiadau fel gostyngiad cyflym yn nifer defnyddwyr y TSS neu fod rhesymau technegol neu gymesuredd rhesymau cost dros ddad-gofrestru.[50]

---

[41] Ymateb y BBC, t.2; Ymateb Channel 4, t.1; Ymateb Everyone TV, t.1; YouView, t.1; Samsung, t.1; ac [redacted].

[42] Ymateb Sky, t.2.

[43] Ymateb Channel 4, t.1.

[44] Ymateb S4C, t.2.

[45] Ymateb Enw wedi'i ddal yn ôl 1, t.3

[46] Ymateb Sky, t.4.

[47] Ymateb y BBC, t.2 ac ymateb Channel 4, t.1.

[48] Ymateb Enw wedi'i ddal yn ôl 1, t.2

[49] Ymateb y BBC, t2.

[50] Ymateb y ITV, t1.

b) Awgrymodd y BBC y “dylid cael cyfnod gofynnol o amser (o leiaf dwy flynedd) lle y dylai cyrhaeddiad RTSS ostwng yn gyson o dan y trothwy cyn iddo gael ei dynnu o reoliadau”.[51]

c) Awgrymodd Channel 4 y dylem ystyried gosod goddefiant neu ystod o amgylch y trothwy.[52]

3.22 Gan gydnabod y gallai’r trothwy newid dros amser, mynegodd enw wedi'i ddal yn ôl 2 bryder ynghylch cydbwyso hyblygrwydd ag amrywioldeb gormodol, gan arwain at ansicrwydd i ddarparwyr TSS ac RTTS.[53]

3.23 Yn olaf, gofynnodd Sky i ni nodi’n benodol yn ein hegwyddorion a’n dulliau y byddwn yn gofyn am ddata defnydd a gwybodaeth berthnasol arall gan ddarparwyr TSS wrth asesu a yw’r defnydd yn sylweddol.[54]

## Ein hymateb

3.24 O ran ymholiadau am yr hyn a olygwn wrth ‘sylweddol’, fe wnaethom egluro yn ein hymgynghoriad, wrth ystyried beth sy’n cyfrif fel nifer sylweddol o ddefnyddwyr, y byddem yn cofio mai nod y drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd yw sicrhau cymaint o fanteision â phosibl i’r gynulleidfa drwy sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael i “fwyafrif llethol y boblogaeth”.[55] Fe ddywedom y byddem yn gwneud hyn drwy wneud argymhellion sy’n ceisio sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang i gynulleidfaoedd yn y DU.

3.25 Rydym yn deall yr awydd i gael rhagor o eglurder ynghylch yr hyn rydym yn ei ystyried yn nifer sylweddol o ddefnyddwyr, ac i weld enghreifftiau o senarios lle byddem fel arfer yn ystyried bod gan TSS nifer sylweddol o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, byddwn yn pennu trothwy o’r fath wrth baratoi argymhellion drafft ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae ein hegwyddorion a’n dulliau’n cydnabod y bydd yr hyn sy’n ‘sylweddol’ yn dibynnu ar ffactorau perthnasol gan gynnwys amodau’r farchnad adeg paratoi adroddiad. O’r herwydd, rydym o’r farn y bydd yn fwyaf priodol egluro’r hyn rydym yn ei ystyried yn sylweddol a’r rhesymau pam mewn unrhyw adroddiad y byddwn yn ei lunio, yn unol â’n hegwyddorion a’n dulliau arfaethedig. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw adroddiad drafft, gan roi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig.

3.26 Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch pam rydyn ni’n credu ei bod hi’n briodol peidio ag argymell dynodi TSS sy’n cyrraedd y trothwy, rydym yn nodi yn yr ymgynghoriad[56] ac yn y Datganiad[57] y byddwn ni’n ystyried hyn fesul achos yn ein hadroddiad, a byddwn yn egluro ein rhesymeg. Wrth ystyried y mater hwn, efallai y byddwn yn ystyried materion gan gynnwys y rheini a awgrymwyd gan randdeiliaid, fel lefel y defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa ac amcanestyniadau twf (cadarnhaol neu negyddol).[58] Er enghraifft, efallai na fyddwn yn argymell dynodi TSS gyda nifer defnyddwyr sy’n gostwng ac yn annhebygol o

---

[51] Ymateb y BBC, t2.
[52] Ymateb Channel 4, t.1.
[53] Ymateb enw wedi'i ddal yn ôl 2, t.2.
[54] Ymateb Sky, t.4.
[55]Deddf Cyfryngau 2024, Nodyn Esboniadol:Cefndir y Polisi a pharagraffau 2.4 a 4.17 o’r ymgynghoriad.
[56] Paragraff 4.22 o’r ymgynghoriad.
[57] paragraff A1.18
[58] Paragraff A1.24 Rydym yn nodi, fodd bynnag, na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond arfer ei bŵer dynodi unigol pan fydd yn ystyried bod nifer sylweddol o bobl yn defnyddio TSS (adran 362AF(2)).

aros dros y trothwy am gyfnod rhesymol oherwydd byddai'r dynodiad yn arwain at fanteision cyfyngedig i'r gynulleidfa ac ni fyddai hynny er budd sefydlogrwydd rheoleiddiol. Gan fod yr egwyddorion hyn eisoes wedi'u nodi yn y Datganiad, nid ydym yn credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Datganiad yn hyn o beth.

3.27 Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch goblygiadau masnachol dynodi'r TSS a'r effeithiau ar TSS a darparwyr DIPS. Fel yr amlinellir yn y Datganiad, byddwn yn pennu'r trothwy mewn ffordd gymesur, gan gydnabod y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar ddarparwr yr RTSS ac ar ddarparwyr DIPS, ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni.[59]

3.28 Mewn ymateb i sylwadau am safonau technegol y cytunwyd arnynt ar gyfer TSS, er y bydd safonau technegol yn berthnasol i'n penderfyniad ynghylch a ddylid argymell dynodi TSS, mae'n annhebygol iawn y byddem yn argymell dynodi ar sail disgrifiad a oedd sy'n cyfeirio'n unig at gyrraedd safonau technegol penodol. Rhaid i ni sicrhau bod ein hargymhellion yn gymesur,[60] ac mae'r Ddeddf yn mynnu eu bod yn ystyried ffactorau eraill, gan gynnwys, er enghraifft, nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y DU ac a yw'r nifer hwnnw'n sylweddol wrth ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud ag arfer eu pŵer i wneud dynodiadau unigol.[61] Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch gallu newydd-ddyfodiaid i sicrhau eu bod yn darparu DIPS, ond yn nodi, er bod y rhwymedigaeth 'rhaid cynnig' yn berthnasol i RTTS yn unig,[62] mae darparwyr pob TSS yn parhau i fod yn rhydd i negodi gyda Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ynghylch darparu DIPS ar eu gwasanaeth ar sail fasnachol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).

3.29 Rydym yn croesawu awgrymiadau ynghylch sut y gallwn ymdrin ag amrywiadau o y defnydd a wneir o TSS. Rydym yn nodi, fel y nodir yn y Ddeddf, os caiff TSS ei ddynodi'n unigol, y bydd yn parhau i gael ei ddynodi nes bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dirymu'r dynodiad, ni waeth beth fo'r amrywiadau yn ei nifer defnyddwyr. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud dynodiad yn ôl disgrifiad, bydd TSS yn cael ei ddad-ddynodi'n awtomatig os bydd yn disgyn o dan unrhyw drothwy a nodir yn y disgrifiad hwnnw. Os ydym yn argymell disgrifiad sy'n cynnwys trothwy,[63] byddwn yn sicrhau, yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol,[64] y gellir ei fesur mewn ffordd sy'n rhoi digon o sefydlogrwydd er mwyn galluogi dull rheoleiddio cyson. Fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf, byddwn hefyd yn monitro datblygiadau yn y farchnad yn rheolaidd i weld a yw'n briodol darparu adroddiad newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac, os felly, y cyngor y dylai adroddiad o'r fath ei gynnwys.[65]

---

[59] Paragraff A1.17c).
[60] Yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol yn adran 3(3)(a) o'r Ddeddf i gyflawni ein gweithgarwch rheoleiddio mewn modd cymesur. Mae paragraffau A1.23 ac A1.32 o'r Datganiad yn dweud y byddwn yn ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol wrth ystyried, yn y drefn honno, unrhyw faterion sy'n debygol o effeithio ar y ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried ar gyfer dynodiad unigol, ac unrhyw ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ba TSS sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad.
[61] Adran 362AG(4) o'r Ddeddf.
[62] O dan adran 362AJ o'r Ddeddf, bydd darparwyr DIPS yn rhwym wrth rwymedigaeth "rhaid cynnig", sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gynnig eu DIPS i bob darparwr RTSS, a rhaid iddynt wneud eu gorau i sicrhau, mewn perthynas â phob cytundeb RTSS, bod cytundebau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym sy'n sicrhau bod DPS yn cael eu cynnwys yn yr RTSS.
[63]Yn unol â pharagraff A1.27a).
[64] Adran 3(3) o'r Ddeddf a pharagraffau A1.23 a A1.32 o'r Datganiad.
[65] Mae adran 362AZ9(2) yn datgan bod gennym y swyddogaeth o gael, llunio a pharhau i adolygu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i ddynodi neu ddiddymu dynodiad TSS, neu roi'r gorau i roi disgrifiad o TSS.

3.30 Yn olaf, rydym yn cytuno â Sky y gallai fod yn briodol gofyn am ddata gan ddarparwyr TSS a'i ystyried wrth asesu a yw'r defnydd ohono'n sylweddol ac efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i ofyn am ddata gan ddarparwyr TSS i lywio ein hadroddiad.[66] Nodwyd hynny fel egwyddor gyffredinol yn y Datganiad[67], ac nid ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau yn hyn o beth.

## Ein penderfyniad

3.31 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer ystyried beth yw nifer sylweddol o ddefnyddwyr TSS yn y DU, fel y nodir isod.

| Egwyddorion a Dulliau ar gyfer gosod trothwy ar nifer y defnyddwyr |
| --- |
| Gan ddefnyddio'r mesur a ddatblygwyd yn unol â'r egwyddorion a'r dulliau ym mharagraff A1.16, byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:<br>a) Wrth osod y trothwy hwn, ein hamcan fydd sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang.<br>b) Byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.<br>c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y dynodiadau rydym yn eu hargymell o fudd i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar y darparwr RTSS ac ar ddarparwyr DIPS, ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni. |

# Dull defnyddio TSS

## Yr hyn a ddywedom ni

3.32 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom gynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth asesu sut caiff TSS ei ddefnyddio:

a) Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Byddwn yn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.

[66] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[67] Paragraff A1.35.

b) Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol. [68]

**Cwestiwn Ymgynghori 3**

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu sut caiff TSS ei ddefnyddio?

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.33 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu'r math o ddefnydd a wneir o'r TSS, gan gynnwys ystyried maint y defnydd gweithredol o'r TSS.[69]

3.34 Gofynnodd dau ymatebydd am fwy o eglurder,[70] gan gynnwys un cais [redacted] i feintioli metrigau ar gyfer asesu defnydd gweithredol a'u nodi i'r diwydiant cyn eu defnyddio er mwyn sicrhau tryloywder.[71]

3.35 Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau am y metrigau y dylem eu defnyddio i asesu defnydd gweithredol, gan gynnig safbwyntiau gwahanol ynghylch y cyfnod y dylem fesur hyn: Awgrymodd enw wedi'i ddal yn ôl 2 y dylid defnyddio defnyddwyr gweithredol misol dros gyfnod o fis,[72] ond barn y BBC oedd nad oedd defnydd gweithredol yn golygu bod rhaid i ddyfeisiau gael eu defnyddio'n amlach nag unwaith y mis.[73] Roedd Channel 4 o'r farn bod y gofyniad i wneud defnydd wythnosol neu fisol yn far rhy uchel, ac yn hytrach argymhellodd y byddai defnydd o leiaf unwaith bob dau fis yn fwy rhesymol.[74]

3.36 Cafwyd sylwadau hefyd gan ymatebwyr ynghylch casglu data. Gofynnodd Sky i ni nodi'n glir y byddwn yn gofyn am ddata defnydd gweithredol ac yn ystyried hynny, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol arall gan ddarparwyr TSS.[75] Ar y llaw arall, mynegodd BT bryder ynghylch baich casglu data posibl ar ddarparwyr TSS[76].

## Ein hymateb

3.37 Pwrpas y Datganiad yw nodi'r egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth bennu pa fesur i'w ddefnyddio pan fyddwn yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol. O ran sylwadau ac awgrymiadau ar y math o fesurau y byddwn yn eu defnyddio, ni fydd y rhain bob amser yr un fath, ond yn ein hadroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol byddwn bob amser yn egluro pam ein bod wedi dewis dull penodol. Fel rhan o'n hymgynghoriad ar y Datganiad, rydym hefyd yn nodi ein syniadau newydd ar gyfer ein dull gweithredu ar gyfer yr adroddiad cyntaf, gan gynnwys metrigau posibl i asesu'r modd y caiff ei ddefnyddio, a byddwn yn ystyried y sylwadau rydym wedi'u cael gan randdeiliaid ar y cwestiynau atodol a ofynnwyd gennym yn y maes hwn wrth ddatblygu ein hargymhellion

[68] Paragraffau 4.29, A1.19, A.1.20 a A1.28 o'r ymgynghoriad.
[69] Ymateb S4C, tt. 2-3; ymateb Everyone TV, t.1; ymateb Samsung, t.1; ymateb Channel 4, t.2 a Sky, tt.4-5 [redacted]
[70] Ymateb Sky, t.4 [redacted]
[71] [redacted]
[72] Ymateb Enw wedi'i ddal yn ôl 2, t.3.
[73] Ymateb y BBC, t3.
[74] Ymateb Channel 4, t.2.
[75] Ymateb Sky, t.5.
[76] Ymateb y BT, t2.

drafft.[77] Byddwn hefyd yn ymgynghori ar y rheini, gan sicrhau tryloywder ynghylch y metrig y byddwn yn ei ddefnyddio ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau cyn gwneud ein hargymhellion terfynol.

3.38 O ran casglu data, fe wnaethom gynnig ymgynghoriad i ystyried y data sydd ar gael a/neu amcangyfrifon ynghylch defnydd.[78] Fe wnaethom gynnig hefyd y gallem ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i gasglu tystiolaeth fel sail i'n hadroddiad.[79] O'r herwydd, rydym o'r farn bod yr egwyddorion a'r dulliau arfaethedig yn rhoi digon o hyblygrwydd i gasglu data gan ddarparwyr TSS sy'n ymwneud â data defnydd. Felly, nid ydym yn credu bod angen addasu'r Datganiad i ddatgan hyn yn benodol.

3.39 Mewn ymateb i bryderon BT ynghylch y baich posibl o gasglu data, rydym yn cydnabod bod angen amser ac adnoddau ar randdeiliad i ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth. Fel gyda phob cais am wybodaeth a gyhoeddir gan Ofcom, byddwn yn sicrhau bod y rhesymau dros y cais yn glir, a'n bod yn gweithredu'n gymesur drwy ofyn am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein swyddogaethau.[80]

## Ein penderfyniad

3.40 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu'r modd y defnyddir TSS yn y DU, fel y nodir isod.

| **Egwyddorion a Dulliau ar gyfer cyfrifo modd defnyddio** |
|---|
| Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Gallwn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.<br><br>Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol. |

# Swyddogaeth dechnegol TSS

## Yr hyn a ddywedom ni

3.41 Yn yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig yr egwyddorion a'r dulliau canlynol ar gyfer asesu swyddogaethau TSS:

a) Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS os yw'n:

   i) Gallu darparu DIPS, fel y'i diffinnir yn adran 362AA(1) y Ddeddf;
   ii) Gallu cyflwyno IPS a rhaglenni gyda lefelau gwahanol o amlygrwydd; a
   iii) Gallu cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau.

[77] 'Dull gweithredu posibl ar gyfer ein hadroddiad cyntaf', t.22 o'r ymgynghoriad.
[78] Paragraff 4.29 o'r ymgynghoriad.
[79] Paragraff 4.47(c) o'r ymgynghoriad.
[80] I gael rhagor o wybodaeth, gweler Ceisiadau am wybodaeth gan Ofcom: pam eich bod yn cael un a beth mae angen i chi ei wneud

b) Wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, byddwn yn ystyried ei alluoedd presennol ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen er mwyn i'r TSS gyflawni'r swyddogaethau uchod. [81]

3.42 Fe wnaethom nodi hefyd y byddwn yn defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau hyn wrth gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddisgrifiad sy'n cyfeirio at y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni.[82]

**Cwestiwn Ymgynghori 4**

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig i roi cyngor ar y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni?

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.43 At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion a'r dulliau arfaethedig ar gyfer asesu swyddogaeth dechnegol TSS.[83]

3.44 Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o eglurder yn y maes hwn. Gofynnodd Samsung am yr "adnoddau" y byddwn yn eu defnyddio i bennu swyddogaeth;[84] gofynnodd Sky i ni ychwanegu enghreifftiau o senarios lle na fyddai TSS fel arfer yn gallu gweithredu fel RTSS yn unol â'n hegwyddorion a'n dulliau;[85] a gofynnodd trydydd rhanddeiliad [redacted] i ni egluro beth sy'n gyfystyr â chyflawni'r swyddogaeth berthnasol, yn enwedig os nad yw TSS yn cyflawni'r swyddogaeth honno ar hyn o bryd.[86]

3.45 Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn poeni y gallai'r cwestiwn ynghylch gallu arwain at fwlch rheoleiddio posibl. Er enghraifft, cyfeiriodd S4C at y posibilrwydd y gallai TSS gael ei ddylunio mewn ffordd sy'n golygu na all gynnwys nodweddion hygyrchedd yn fwriadol i osgoi cael ei ddynodi,[87] tra bod un o'r rhanddeiliad eraill [redacted] wedi rhoi'r enghraifft ychwanegol o ddarparwr llwyfan yn "gosod cod caled ar safleoedd ap", h.y. trwsio safleoedd IPS drwy eu hymgorffori yng nghod y TSS, er mwyn osgoi cael eu dynodi.[88]

3.46 Awgrymodd S4C y dylem ddiwygio paragraff A1.22 o'r Datganiad i fynd i'r afael â'r risg hon drwy nodi, wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, y byddwn yn ystyried arferion cyfredol y diwydiant; y nodweddion y mae'n rhesymol eu disgwyl gan ddyfeisiau TSS newydd ar y farchnad; a phwysigrwydd sicrhau hygyrchedd i bob cynulleidfa.[89]

3.47 Pryder arall a godwyd gan ymatebwyr oedd y ffordd yr oedd TSS hŷn yn cael eu trin. Er enghraifft, nododd Sky ei bod yn bosibl nad yw'n bosibl yn dechnegol i fynnu bod darparwyr yn diweddaru dyfeisiau hŷn, fel rhai o'u blychau pen-set hŷn, i gydymffurfio â'r gofynion

---

[81] Paragraffau 4.42 A1.21 a A1.22 o'r ymgynghoriad.
[82] Paragraffau 4.43 a A1.30 o'r ymgynghoriad.
[83] Ymateb Samsung TV, t.1; ymateb Everyone TV, t.2; ymateb YouView, t.1; ymateb y BBC, t.3; ymateb Channel 4, t.2; ymateb S4C, t.3 [redacted]
[84] Ymateb Samsung, t.1.
[85] Ymateb Sky t. 2 a 6.
[86] [redacted]
[87] Ymateb S4C, t. 3.
[88] [redacted]
[89] Ymateb S4C, t.3.

newydd o ran amlygrwydd a hygyrchedd; pe bai hynny'n bosibl, byddai'n arwain at gostau sylweddol i'r darparwr ar gyfer sylfaen cwsmeriaid sy'n "edwino".[90]

3.48 Soniodd Sky hefyd am yr anhawster o asesu a yw TSS penodol yn gallu cefnogi "gofynion technegol" y Cod Ymarfer,[91] heb weld yn gyntaf beth yw cynnwys y Cod Ymarfer. Awgrymodd y dylem ystyried cynnwys eithriadau i'r Cod Ymarfer ar gyfer TSS hŷn.[92]

3.49 Rhybuddiodd ymatebydd arall [redacted] yn erbyn tybio y dylid esemptio fersiynau hŷn o'r TSS rhag rheoleiddiadau.[93] Wrth wneud hynny, roedd yn argymell ein bod yn asesu pob TSS a phob fersiwn ohonynt ar eu rhinweddau eu hunain ac na ddylai fersiynau hŷn o'r TSS, sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr o hyd a lle mae'n dal yn bosibl addasu'r UI, osgoi'r rheoliadau.

3.50 Roedd Channel 4 o'r farn y byddai dynodi TSS hen iawn sy'n cyflwyno costau cymorth technegol uchel ond â chynulleidfaoedd bach a/neu ond potensial bach iawn ar gyfer ennill refeniw hysbysebu yn anghyson ag Amcan y Cytundeb i beidio â chael effaith niweidiol ar allu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus.[94]

3.51 Soniodd nifer o randdeiliaid hefyd am rôl DIPS mewn perthynas â TSS hŷn a swyddogaethau technegol yn gyffredinol. Er enghraifft, dywedodd BT fod y cymorth ar gyfer swyddogaeth TSS yn dibynnu'n bennaf ar y darparwr cynnwys ac mewn llawer o achosion nid yw darparwyr cynnwys yn credu ei bod yn ymarferol buddsoddi amser ac arian i wneud ap cydnaws, er enghraifft yn achos TSS hŷn neu lai o faint.[95] Yn yr un modd, nododd Channel 4 na fydd DIPS darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu yn yr un ffordd ar bob TSS, er enghraifft, gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dynnu neu leihau rhai nodweddion ar y TSS hŷn.[96] Nododd ITV ei bod yn annhebygol y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynnig eu DIPS i TSS nad oes ganddynt sicrwydd effeithiol o ran rheoli hawliau digidol.[97]

## Ein hymateb

3.52 O ran ceisiadau am fwy o eglurder ynghylch ein dull o asesu ymarferoldeb technegol, o ystyried y bydd yr asesiad yn dibynnu ar gyd-destun, rydym o'r farn bod ein hegwyddorion a'n dulliau yn darparu lefel briodol o fanylion sy'n caniatáu i ni ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael bob tro y byddwn yn llunio adroddiad ac i ystyried datblygiadau yn y farchnad gan gynnwys newidiadau technolegol. Nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol yn y Datganiad i roi enghreifftiau neu i nodi'r dystiolaeth y byddwn yn dibynnu arni oherwydd gallai hynny newid yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ym mhob adroddiad, a gallai ddarfod dros amser. Byddwn yn egluro ein dull gweithredu ym mhob adroddiad a bydd

---

[90] Ymateb Sky, t. 5-6.
[91] O dan adran 362AP(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi cod ymarfer (y 'Cod Ymarfer') sy'n argymell camau gweithredu y dylai darparwyr RTSS eu cymryd wrth geisio cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan adran 362AO o'r Ddeddf i sicrhau bod ei wasanaeth yn hygyrch i'r rheini sydd ag anableddau a bod DIPS yn cael amlygrwydd priodol.
[92] Ymateb Sky, t.6.
[93] [redacted]
[94] Ymateb Channel 4, t.2.
[95] Ymateb y BT, t1.
[96] Ymateb Channel 4, t.2.
[97] Ymateb y ITV, t2.

cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar ein hargymhellion arfaethedig, gan gynnwys y dystiolaeth a ddefnyddir pan fyddwn yn ymgynghori ar bob adroddiad o'r fath.

3.53 Mewn ymateb i sylwadau ynghylch yr hyn a olygwn wrth 'gallu' a bylchau posibl, nid ydym yn credu y gallai'r egwyddorion a'r dulliau arfaethedig arwain at y bylchau rheoleiddiol posibl y tynnwyd sylw atynt gan S4C ac ymatebydd arall. Y rheswm am hyn yw na fyddwn yn ystyried yn awtomatig na all TSS weithredu fel RTSS os nad yw'n darparu swyddogaeth benodol ar hyn o bryd, fel nodweddion hygyrchedd. Yn hytrach, wrth ystyried a yw TSS yn 'gallu' cyflawni swyddogaeth – gan nodi bod un rhanddeiliad wedi gofyn i ni egluro'r hyn rydym yn ei olygu wrth hyn – mae ein Datganiad arfaethedig yn nodi y byddwn yn ystyried galluoedd presennol y TSS ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i'w wneud yn bosibl i weithredu fel RTSS.[98]

3.54 Rydym yn cytuno ag S4C y gallai arferion y diwydiant a'r nodweddion y mae'n rhesymol i'w disgwyl gan y TSS newydd fod yn berthnasol i'n hasesiad o swyddogaethau technegol. Dyma'r mathau o faterion ychwanegol y gallwn eu hystyried yn unol â pharagraffau A1.23 a A1.31 o'r Datganiad.[99] Felly, nid ydym yn credu bod angen diwygio'r egwyddorion a'r dulliau o ran swyddogaeth dechnegol i gyfeirio'n benodol at arferion y diwydiant na'r nodweddion a ddisgwylir gan y TSS newydd. O ran sylw S4C am bwysigrwydd sicrhau hygyrchedd i bob cynulleidfa, rydym o'r farn bod hyn yn cael sylw digonol ym mharagraff A1.21c) o'r Datganiad, sy'n nodi bod gallu nodweddion hygyrchedd yn un o'r ffactorau y byddwn yn eu hasesu wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS.

3.55 O ran pryderon a fynegwyd gan Sky a rhanddeiliaid eraill am wasanaethau hŷn, byddwn yn ystyried fel rhan o'n hasesiad o swyddogaethau technegol a yw TSS hŷn yn gallu gweithredu fel RTSS. Os nad yw TSS hŷn yn gallu darparu DIPS, a chyflwyno IPS a rhaglenni â gwahanol lefelau o amlygrwydd ac yn cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau, yna efallai na fyddwn yn argymell ei ddynodi. I'r gwrthwyneb, os yw TSS hŷn yn gallu cyflawni'r swyddogaethau hyn (neu os byddai'n rhesymol ac yn gymesur i addasu'r TSS fel bod modd gwneud hynny), yna efallai y byddwn yn argymell ei ddynodi os byddwn o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

3.56 Fe wnaethom nodi yn yr ymgynghoriad, wrth ystyried a yw TSS hŷn yn gallu gweithredu fel RTSS, ein bod yn debygol o ystyried y canlynol:

(a) data ar ddefnyddio TSS hŷn a fersiynau hŷn o TSS sydd ar gael yn y farchnad;

(b) arferion y diwydiant o ran cefnogi TSS hŷn a fersiynau hŷn o TSS; ac

(c) arferion y diwydiant o ran sicrhau bod IPS yn gydnaws â TSS hŷn a fersiynau hŷn o TSS.[100]

3.57 Rydym o'r farn y byddai'r ffactorau hyn yn cynnwys y pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ynghylch rôl DIPS mewn perthynas â TSS hŷn, gan gynnwys y rheini sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr.

3.58 Wrth ystyried a yw TSS hŷn yn gallu gweithredu fel RTSS, byddem hefyd yn ystyried ein dyletswydd gyfreithiol gyffredinol i gyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio yn gymesur, gan ystyried y rhwymedigaethau rheoleiddiol ar ddarparwyr DIPS a RTSS a fydd yn deillio o'r

[98] Paragraff A1.22.
[99] Yn y paragraffau hyn, rydym yn nodi y byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.
[100] Paragraff 4.41 o'r ymgynghoriad.

dynodiad, yn ogystal â'r manteision posibl i'r ddau sy'n deillio o argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni.

3.59 Rydym o'r farn bod yr egwyddorion a'r dulliau arfaethedig ym mharagraffau A1.21, A1.22, A1.23 a A1.31 yn rhoi digon o hyblygrwydd i'n galluogi i ystyried y materion uchod sy'n ymwneud â'r TSS hŷn, ac nad oes felly angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Datganiad. Wrth baratoi ein hargymhellion arfaethedig i'r Ysgrifennydd Gwladol, byddwn hefyd yn ystyried y safbwyntiau a ddarparwyd drwy ein hymgynghoriad mewn ymateb i'n cwestiwn atodol ynghylch swyddogaethau technegol. Byddwn wedyn yn ymgynghori ar yr argymhellion arfaethedig hyn, pan fydd cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar ein hymagwedd mewn perthynas â TSS hŷn.

3.60 Yn amodol ar yr hyn y byddwn yn ei argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn ein hasesiad o swyddogaethau a gallu technegol, rydym yn cytuno â safbwyntiau Sky ac eraill y bydd sut y gall darparwyr TSS hŷn neu fersiynau hŷn o TSS gydymffurfio â'u gofynion o ran amlygrwydd a hygyrchedd yn ystyriaeth bwysig wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith i roi'r drefn newydd ar waith. Mae hwn yn faes y byddwn yn ei ystyried wrth i ni baratoi'r Cod Ymarfer a'n Canllawiau ar Amcanion y Cytundeb.[101]

## Ein penderfyniad

3.61 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu'r modd y defnyddir TSS yn y DU, fel y nodir isod.

| **Egwyddorion a Dulliau ar gyfer ymarferoldeb technegol** |
| --- |
| Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS os yw'n: |
| a) Gallu darparu DIPS, fel y'i diffinnir yn adran 362AA(1) o'r D\deddf; |
| b) Gallu cyflwyno IPS a rhaglenni gyda lefelau gwahanol o amlygrwydd; ac yn |
| c) Gallu cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau. |
| Wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, byddwn yn ystyried ei alluoedd presennol ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen er mwyn i'r TSS gyflawni'r swyddogaethau uchod. |

# Materion perthnasol ychwanegol

## Yr hyn a ddywedom ni

3.62 Fe wnaethom gynnig ystyried fesul achos a oes unrhyw faterion ychwanegol y byddai'n briodol i ni eu hystyried, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol. Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd y gellir cael

[101] Mae adran 362AL o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau am sut y gall darparwyr DIPS a RTSS weithredu'n gyson ag Amcanion y Cytundeb, sydd wedi'u nodi yn adran 362AM.

gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau ar yr adeg y byddwn yn paratoi adroddiad.[102]

3.63 Fe wnaethom hefyd gynnig yr egwyddorion cyffredinol a ganlyn:[103]

a) Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau yn y datganiad.
b) Fodd bynnag, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol gwyro oddi wrth yr egwyddorion a'r dulliau yn y datganiad. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn egluro pam ein bod wedi dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau.
c) Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i hysbysu ein hadroddiad.[104]
d) Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.[105]

**Cwestiwn Ymgynghori 5**

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu unrhyw faterion ychwanegol?

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.64 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno ar ein hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer ystyried materion ychwanegol a'n hegwyddorion cyffredinol.[106]

3.65 Gofynnodd un rhanddeiliad [redacted] am ragor o wybodaeth ynghylch sut byddai Ofcom yn penderfynu a fyddai'n briodol defnyddio'r dulliau hyn ac, os byddwn yn defnyddio'r dulliau hyn, a fyddent yn dryloyw.[107]

## Ein hymateb

3.66 Fel y nodir yn yr ymgynghoriad ac yn y Datganiad, byddwn yn penderfynu a yw'n briodol ystyried unrhyw faterion ychwanegol neu wyro oddi wrth yr egwyddorion a'r dulliau yn y Datganiad fesul achos, yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar yr adeg rydym yn paratoi adroddiad ac yn ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.[108] Os byddwn yn penderfynu gwneud hynny, byddwn yn egluro pam ac yn ymgynghori arno yn unol â'n hegwyddorion cyffredinol,[109] a fydd yn sicrhau bod ein penderfyniadau'n dryloyw. Gan y bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn dibynnu ar gyd-destun, nid ydym yn credu bod angen ychwanegu rhagor o fanylion at y Datganiad yn hyn o beth.

[102] Paragraffau 4.45, A1.23, A1.24 a A1.31 o'r ymgynghoriad.
[103] Paragraffau 4.47 a A1.32-A1.35 o'r ymgynghoriad.
[104] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[105] Adran 362AG(8) o'r Ddeddf.
[106] Ymateb Sky TV, t.8; ymateb Everyone TV, t.1; ymateb YouView, t.1; ymateb S4C, t.3; ymateb Samsung, t.1; [redacted]
[108] Paragraffau A1.23, A1.24 a A1.31 o'r Datganiad a pharagraff 4.45 o'r ymgynghoriad.
[109] Paragraffau A1.32 - A1.35.

## Ein penderfyniad

3.67 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu'r modd y defnyddir TSS yn y DU, fel y nodir isod.

| Egwyddorion a Dulliau ar gyfer materion perthnasol ychwanegol |
| --- |
| Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.<br><br>Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd y gellir cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau ar yr adeg y byddwn yn paratoi adroddiad. |

# Sylwadau eraill

3.68 Cafwyd sylwadau gan rai rhanddeiliaid nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad, gan gynnwys sylwadau ynghylch:

a) y diffiniadau o ITE a TSS,
b) diweddariadau i'r Datganiad yn y dyfodol a'n hargymhellion dynodi, ac
c) effeithiau masnachol posibl y drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd ar RTSS a DIPS.

3.69 Rydym yn ystyried ac yn ymateb i'r sylwadau hynny yn yr adran hon.

## Yr hyn a ddywedom ni

3.70 Fel y nodir ym mharagraff 2.4, mae'r drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd yn berthnasol i'r TSS. Un o ofynion TSS yw bod yn rhaid ei ddarparu mewn cysylltiad ag ITE.[110]

3.71 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddweud ein bod o'r farn bod y llwyfannau meddalwedd sy'n cael eu defnyddio ar setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio yn cyd-fynd â'r diffiniad o TSS.[111] Fe wnaethom hefyd nodi bod yr un TSS fel arfer yn cael ei ddarparu ar draws amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau a modelau, sy'n golygu, er enghraifft, y gallai setiau teledu clyfar gan yr un cwmni caledwedd weithredu gyda fersiynau gwahanol o TSS penodol. Fe wnaethom gynnig ystyried y gwahanol fersiynau hyn o wasanaeth fel un TSS o dan y Ddeddf.[112]

[110] Paragraff 2.6 ac Adran 362AE(1) o'r Ddeddf.
[111] Paragraff 3.15 o'r ymgynghoriad.
[112] Paragraffau 3.19-3.20 o'r ymgynghoriad.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

### Diffiniad o ITE

3.72 Gofynnodd Samsung am gadarnhad nad yw'r diffiniad o ITE[113] yn cynnwys ffonau symudol a dyfeisiau tabled ac, er eu bod yn cydnabod ei bod y tu hwnt i gylch gorchwyl Ofcom i newid y diffiniad o ITE, fe wnaeth Channel 4 ein hannog i fonitro'r defnydd o gonsolau gemau ar gyfer gwylio teledu, gyda'r bwriad o argymell bod Llywodraeth y DU yn eu cynnwys yn y diffiniad o ITE. I gefnogi'r farn hon, tynnodd sylw at y defnydd o'r dyfeisiau hyn gan gynulleidfaoedd iau i gael gafael ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[114]

### Diffiniad o TSS

3.73 Roedd y BBC yn croesawu ein dull gweithredu a amlinellwyd uchod ar gyfer gwahanol fersiynau o TSS, ond, ynghyd ag ymatebwyr eraill, gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch sut mae TSS newydd neu fersiwn newydd o TSS presennol yn cael eu trin.[115] Soniodd Channel 4 am y risg y gallai "RTSS gael eu cymell i honni bod mabwysiadu system weithredu newydd (OS) yn golygu lansio TSS cwbl newydd – a allai olygu bod y gwasanaeth yn osgoi rheoleiddio nes ei fod yn cyrraedd y trothwy 'nifer sylweddol o ddefnyddwyr'.[116]

3.74 Gofynnodd enw wedi'i ddal yn ôl 2 i ni hefyd am ein syniadau ar "rhaglenni ategol" (h.y. Rhaglenni neu wasanaethau o fewn TSS) sy'n gweithredu'n debyg i TSS ac sy'n gweithredu fel "sgrin hafan ddeuol".[117] Ar linellau tebyg, gofynnodd rhanddeiliad arall [redacted] am eglurhad ynghylch y posibilrwydd o ddynodi Freely[118] o ystyried ei fod yn cyflwyno swyddogaethau technegol sy'n debyg i TSS, gan weithredu fel "hyb" ar gyfer apiau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[119]

### Diweddaru ein Datganiad a'n hargymhellion

3.75 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cynnal hyblygrwydd yn y broses ddynodi i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn ystyried cyflymder y datblygiadau technolegol yn y sector. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymodd Channel 4 y dylem ymrwymo i fynd ati o bryd i'w gilydd i adolygu ac, os oes angen, diwygio ein hargymhellion yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sicrwydd rheoleiddiol ac arloesi.[120]

### Goblygiadau masnachol y drefn

3.76 Mewn rhai ymatebion, tynnodd rhanddeiliaid ein sylw at effeithiau posibl dynodi, a'r drefn argaeledd ac amlygrwydd yn fwy cyffredinol, ar wahanol ddarparwyr TSS a Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus. Er enghraifft, tynnodd enw wedi'i ddal yn ôl 2 sylw at bwysigrwydd cofio cyd-destun y gwahanol fodelau busnes a ddefnyddir gan wahanol systemau gweithredu wrth wneud ein hargymhellion dynodi.[121]

---

[113] Ymateb Samsung, t.2.
[114] Ymateb Channel 4, t.5.
[115] Ymateb y BBC, t1.
[116] Ymateb Channel 4, t.1.
[117] Ymateb Enw wedi'i ddal yn ôl 2, t.2.
[118] Mae Freely yn wasanaeth teledu sy'n cynnig cynnwys byw ac ar-alw sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd ac yn cael ei ddarparu gan Everyone TV, menter ar y cyd rhwng y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5.
[119] [redacted]
[120] Ymateb Channel 4, t.5.
[121] Ymateb Enw wedi'i ddal yn ôl 2, t.3.

3.77 Mynegodd y BBC, ITV a Channel 4 bryderon ynghylch yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod eu DIPS ar gael ar TSS, yn enwedig fersiynau newydd a TSS newydd[122] a chododd Channel 4 ac ITV y cwestiwn ai RTSS ynteu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddylai ysgwyddo costau unrhyw addasiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r drefn argaeledd ac amlygrwydd.[123]

## Ein hymateb

### Diffiniad o ITE

3.78 Fel y nodir yn y paragraff uchod 2.7, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol reoliadau ym mis Hydref 2024 yn nodi fod setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio, fel blychau pen-set a ffyn ffrydio, yn ITE.[124] Felly, nid yw ffonau symudol, dyfeisiau tabled na chonsolau gemau wedi'u cynnwys yn y diffiniad o ITE ar hyn o bryd.

3.79 Mewn ymateb i sylwadau Channel 4, yn ei memorandwm esboniadol i'r Rheoliadau, nododd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bwriad i fonitro'r rheoliadau ac adolygu'r rhestr o ITE un blwyddyn ar ôl gweithredu'r drefn amlygrwydd newydd yn llawn.[125]

### Diffiniad o TSS

3.80 O ran pryderon rhanddeiliaid ynghylch TSS newydd a fersiynau newydd o TSS presennol, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod yn glir mewn unrhyw adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut rydym wedi asesu TSS newydd a fersiynau newydd o TSS presennol. Bydd a yw gwasanaeth yn TSS newydd yn ddibynnol ar ffeithiau ac yn cael ei asesu fesul achos a bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i wneud sylwadau ar unrhyw asesiad o'r fath pan fyddwn yn ymgynghori ar unrhyw adroddiad drafft.

3.81 Mewn ymateb i sylwadau am raglenni ategol a Freely, nodir yn y Ddeddf y meini prawf y mae'n rhaid i wasanaeth eu bodloni i fod yn TSS, ac maent yn gronnus. Nid yw gwasanaethau nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf yn y Ddeddf yn TSS ac ni ellir eu dynodi, hyd yn oed os ydynt yn bodloni rhai o'r meini prawf ac felly'n gweithredu mewn modd tebyg i'r TSS.

### Diweddaru ein Datganiad a'n hargymhellion

3.82 Mewn ymateb i sylwadau ynghylch cynnal hyblygrwydd yn y broses ddynodi ac adolygu ein hargymhellion, nid oes dyletswydd statudol arnom i gynnal adolygiadau cyfnodol o'n hargymhellion.[126] Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn rhoi rôl monitro i ni a'r swyddogaeth o gael, llunio ac adolygu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r dynodiad cyntaf yn ogystal â phrosesau dynodi a dad-ddynodi yn y dyfodol.[127] Ar ben hynny, bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad, byddem yn ystyried amodau'r farchnad a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys datblygiadau technolegol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

---

[122] Ymateb y BBC, t.1 ac ymateb ITV, t.3.
[123] Ymateb y ITV, t.3 ac ymateb Channel 4, t.3.
[124] The Internet Television Equipment Regulations 2024 (2024/1056) (y 'Rheoliadau').
[125] Paragraff 10.1 o'r Explanatory Memorandum to the Regulations.
[126] Fel y nodir yn y Ddeddf ac yn ein hymgynghoriad ym mharagraff A3.12, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae'n rhaid i ni ddarparu un neu gallwn benderfynu ar ein liwt ein hunain i ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a gallwn wneud argymhellion mewn perthynas ag arfer y naill bŵer neu'r llall neu'r ddau bŵer.
[127] Adran 362AZ9 o'r Ddeddf.

3.83 O’r herwydd, byddwn yn monitro datblygiadau yn y farchnad yn rheolaidd i weld a yw’n briodol darparu adroddiad newydd i’r Ysgrifennydd Gwladol ac, os felly, y cyngor y dylai adroddiad o’r fath ei gynnwys. Ein barn ni yw y bydd hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol na chynnal adolygiad o ddynodiad ar adegau penodol, ni waeth beth fo’r datblygiadau yn y farchnad, gan y bydd yn ein galluogi i ymateb i newidiadau yn y farchnad wrth iddynt godi.

## Goblygiadau masnachol y drefn

3.84 Mewn ymateb i’r sylwadau ynghylch pwysigrwydd ystyried gwahanol fodelau busnes TSS a’r amser a’r adnoddau a dreulir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod eu DIPS ar gael ar TSS, yn unol â’n dyletswyddau cyffredinol, fe wnaethom ystyried effeithiau posibl y Datganiad arfaethedig[128] a byddwn yn parhau i ystyried yr effeithiau posibl ar randdeiliaid yn ystod camau diweddarach ein rhaglen weithredu ar gyfer y drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd hon. Byddwn bob amser yn cynnal asesiad effaith ar gyfer unrhyw gynigion a wnawn.

[128] Gweler Atodiad 2.

# A1. Datganiad o Egwyddorion a Dulliau

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi gwasanaethau dethol teledu o dan adran 362AF(1)(a) neu (b) yn Rhan 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf).[129] Mae adran 362AG(9) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio'r datganiad hwn.

## Y fframwaith cyfreithiol

A1.2 Nod y drefn amlygrwydd yn Rhan 3A y Ddeddf yw sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar TSS sy'n cael ei ddefnyddio'n eang. I gyflawni hyn, rhaid i ddarparwyr TSS dynodedig (y cyfeirir atynt fel TSS neu RTSS sy'n cael ei reoleiddio) sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig (IPS neu DIPS dynodedig)[130] y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB),[131] a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael ac yn amlwg ar y gwasanaeth.

A1.3 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi TSS naill ai drwy: (a) enwi'r TSS unigol sydd i'w ddynodi o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol); neu (b) pennu disgrifiad o'r TSS sydd i'w ddynodi o dan adran 362AF(1)(b), ac os felly bydd TSS sy'n bodloni'r disgrifiad yn cael ei ddynodi (dynodi drwy ddisgrifiad).[132]

A1.4 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom cyn gwneud neu ddiwygio rheoliadau dynodi.[133] Rhaid i'n hadroddiad nodi argymhellion ar sut y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau gwneud rheoliadau.[134] Efallai y byddwn yn penderfynu paratoi adroddiad o'r fath ar ein liwt ein hunain.[135] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ni baratoi adroddiad, ac os felly rhaid i ni wneud hynny cyn gynted ag sy'n ymarferol.[136]

A1.5 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn hysbysu'n hadroddiad i'r

---

[129]Cafodd Rhan 3A y Ddeddf ei mewnosod gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024.
[130] Mae "IPS" yn cael ei ddiffinio yn adran 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf ac mae "DIPS" yn cael ei ddiffinio yn adran 362AA(1) o'r Ddeddf.
[131] Mae chwaraewr IPS y BBC yn cael ei ddynodi'n awtomatig. Mae gan Ofcom y pŵer i ddynodi IPS y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill: darparwyr gwasanaethau Channel 3 (ITV ar hyn o bryd ac STV), Channel 4, S4C, a Channel 5 (adran 362AA(2) o'r Ddeddf). Cyfeirir at chwaraewyr ar-alw dynodedig fel gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig neu DIPS.
[132] Bydd yn rhaid i ddarparwyr TSS y mae eu TSS yn wasanaeth neu'n dod yn wasanaeth dan y disgrifiad a nodir roi gwybod i Ofcom (adran 362AH y Ddeddf).
[133] Adran 362AG (2) o'r Ddeddf
[134] Adran 362AF(4) o'r Ddeddf.
[135] Adran 362AG(1) o'r Ddeddf.
[136] Adran 362AG(2) a (3) o'r Ddeddf.

Ysgrifennydd Gwladol.[137] Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy'n derbyn y cais yn cael neu'n cynhyrchu gwybodaeth.[138]

A1.6 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Y ddogfen hon yw'r datganiad hwnnw. Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwn.[139]

A1.7 Mae fframwaith cyfreithiol manylach yn **Atodiad 3**.

# Egwyddorion a dulliau ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar ddynodi TSS sy'n cael ei reoleiddio (RTS)

## Beth yw TSS?

A1.8 Mae TSS yn wasanaeth, neu'n rhan ddatgysylltiol o wasanaeth, sydd:

a) yn cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd;

b) yn cael ei ddarparu mewn cysylltiad ag offer teledu rhyngrwyd (ITE);

c) yn cynnwys cyflwyno IPS; ac

d) yn galluogi defnyddiwr i ddewis rhwng a chael mynediad at IPS neu raglenni a ddarperir gan yr IPS hynny, neu'r ddau.[140]

A1.9 Nid TSS yw'r ddyfais y mae IPS, neu raglenni'n cael eu defnyddio arni – ITE yw'r ddyfais. TSS yw'r gwasanaeth sy'n galluogi'r defnyddiwr i gyrchu'r IPS sydd ar gael a darganfod rhaglenni a ddarperir gan yr IPS hynny.

A1.10 Wrth wneud argymhellion, bydd Ofcom yn cyfeirio at y diffiniad o ITE fel y nodir yn y rheoliadau diweddaraf a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 362AE(2) o'r Ddeddf.[141]

A1.11 Ar ddyddiad y datganiad hwn, y rheoliadau diweddaraf yw Rheoliadau Offer Teledu Rhyngrwyd 2024.[142] Diffiniad y rhain o ITE yw:

a) Setiau teledu clyfar; a

b) Dyfeisiau ffrydio, sy'n cynnwys ffyn ffrydio a blychau pen-set.

## Pwerau dynodi'r Ysgrifennydd Gwladol

A1.12 Fel y nodir uchod, mae dau bŵer y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu defnyddio i ddynodi TSS yn RTSS: rheoliadau o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigoln) neu reoliadau o dan adran 362AF(1)(b) (dynodi drwy ddisgrifiad).

[137] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[138] Adran 362AS(3) a (4) o'r Ddeddf.
[139] Adran 362AG(9) a (10) o'r Ddeddf.
[140] Adran 362AE(1) a (2) o'r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o "gwasanaeth dethol teledu" o dan adran 362AE(7) o'r Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio'r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.
[141] Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o "offer teledu rhyngrwyd" o dan adran 362AE(7) o'r Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio'r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.
[142] The Internet Television Equipment Regulations 2024 (2024/1056).

A1.13 Gan nad yw'r Ddeddf yn rhagnodi'r amgylchiadau lle dylid defnyddio'r pwerau, gallwn wneud argymhellion mewn perthynas â'r naill neu'r llall o'r pwerau neu'r ddau. Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell pŵer dynodi penodol.

## Egwyddorion a dulliau wrth baratoi adroddiad ar arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol)

A1.14 Mae adran 362AG(4)(a) i (d) yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol):

a) Nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio TSS ac a yw'r nifer hynny'n sylweddol;[143]

b) **Y modd y defnyddir TSS;**

c) A yw'r TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, ac a oes modd iddo allu gwneud hynny; ac

d) Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion uchod.

A1.15 Rydym yn nodi isod yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r materion hyn.

### (a) Nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac a yw hynny'n sylweddol

A1.16 Er mwyn asesu'r mater hwn, bydd angen i Ofcom asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth. I gyflawni hyn, byddwn yn:

a) Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio gwasanaeth;

b) Gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd defnyddwyr os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy; a

c) Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob TSS i sicrhau triniaeth deg.

A1.17 Gan ddefnyddio'r mesur a ddatblygwyd yn unol â'r egwyddorion a'r dulliau ym mharagraff A1.16, byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:

a) Wrth osod y trothwy hwn, ein hamcan fydd sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang.

b) Byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y dynodiadau rydym yn eu hargymell o fudd i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar y

---

[143] Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod TSS yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl yn y DU er mwyn ei ddynodi'n benodol (adran 362AF(2) y Ddeddf).

darparwr RTSS ac ar ddarparwyr IPS dynodedig (DIPS), ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni.

A1.18 Yn gyffredinol, byddwn yn argymell dynodi TSS ar lefel yr ydym yn ei hystyried sy'n nifer sylweddol o ddefnyddwyr, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a'r dulliau eraill yn y datganiad hwn, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi TSS o'r fath. Er enghraifft, efallai na fyddem yn argymell dynodi TSS o'r fath os yw tystiolaeth yn awgrymu bod nifer ei ddefnyddwyr yn gostwng ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell neu nad ydym wedi argymell dynodi TSS sydd ar y trothwy neu'n uwch na hynny.

## (b) Y modd y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y personau hynny

A1.19 Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Gallwn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.

A1.20 Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol.

## (c) A yw'r gwasanaeth hwnnw'n gallu gweithredu fel gwasanaeth dethol teledu wedi'i reoleiddio a'r addasiadau, os o gwbl, sydd eu hangen iddo allu gwneud hynny

A1.21 Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS os yw'n gallu gwneud y canlynol:

a) Darparu DIPS, fel y'i diffinnir yn adran 362AA(1) o'r Ddeddf;[144]

b) Cyflwyno IPS a rhaglenni gyda lefelau gwahanol o amlygrwydd; a

c) Cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau.

A1.22 Wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, byddwn yn ystyried ei alluoedd presennol ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen er mwyn i'r TSS gyflawni'r swyddogaethau uchod.

## (d) Unrhyw faterion mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt yn (a) i (d)

A1.23 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.[145]

A1.24 Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd y gellir cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddwn yn paratoi adroddiad.

[144] Os ydym yn paratoi adroddiad cyn i unrhyw IPS gael ei ddynodi, byddwn yn ystyried dewis arall priodol, a allai gynnwys asesu a yw'r TSS yn gallu darparu IPS y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
[145] Mae Atodiad 3 yn nodi ein dyletswyddau statudol perthnasol.

## Egwyddorion a dulliau wrth baratoi adroddiad ar arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(b) (dynodi drwy ddisgrifiad)

A1.25 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol baratoi disgrifiad o'r TSS y mae'n credu y dylai fod yn RTSS neu ofyn i Ofcom wneud hynny. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i Ofcom gynhyrchu adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ynghylch arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(b).

A1.26 Mae adran 362AG(5) yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad o dan adran 362AF(1)(b):

a) Pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad dan sylw; ac

b) Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad hwnnw.

A1.27 Mae adran 362AF(3) yn datgan y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 362AF(1)(b) gyfeirio at:

a) TSS sy'n cael ei ddefnyddio, neu'n cael ei ddefnyddio mewn modd a bennir yn y rheoliadau, gan ddim llai na nifer y cyhoedd yn y DU ag a bennir yn y rheoliadau;

b) Y dyddiad pan fydd TSS ar gael am y tro cyntaf i aelodau o'r cyhoedd yn y DU; ac

c) Y swyddogaethau y gall TSS eu cyflawni, neu mae'n bosibl iddo allu eu cyflawni.

A1.28 Rydym yn nodi isod yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r materion hyn.

### (a) Pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad o TSS dan sylw

A1.29 Pan fydd y disgrifiad yn cyfeirio at y mater ym mharagraff A1.27a), bydd angen i Ofcom asesu nifer y cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y modd a nodir yn y rheoliadau. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn asesu defnydd gyda'r un egwyddorion a dulliau ag a nodir ym mharagraff A1.16A1.16; ac yn asesu dull defnyddio gyda'r un egwyddorion a dulliau ag a nodir ym mharagraffau A1.19 ac A1.20A1.20.

A1.30 Os yw disgrifiad hefyd neu fel arall yn cyfeirio at y mater ym mharagraff A1.27b), byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i bennu'r TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hwnnw.

A1.31 Pan fydd disgrifiad hefyd neu fel arall yn cyfeirio at y mater yn A1.27c), byddwn yn ystyried a yw'n gallu gweithredu fel RTSS, gan gymhwyso'r egwyddorion a'r dulliau ym mharagraff A1.21 ac A1.22 ac asesu unrhyw swyddogaethau eraill y gellir eu pennu yn y disgrifiad.

### (b) Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad a ddisgrifir ym mharagraff (a)

A1.32 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar pa TSS sy'n debygol o ddisgyn o fewn y disgrifiad, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.

## Egwyddorion cyffredinol

A1.33 Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

A1.34 Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau i'r rhai a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau, byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hyn.

A1.35 Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i gasglu tystiolaeth i lywio ein hadroddiad.

A1.36 Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.[146]

[146] Adran 362AG(8) o'r Ddeddf.

# A2. Asesiadau effaith a dyletswyddau cyffredinol

## Asesiad o effaith

A2.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn mynnu bod Ofcom yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[147]

A2.2 Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd drwy'r ddogfen ymgynghori (yn benodol adran 4) yn darparu ein hasesiad o effaith ein cynigion ac roedd yn asesiad effaith, yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o'r Ddeddf. Mae Adran 3 o'r datganiad hwn yn nodi ein hymatebion i sylwadau rhanddeiliaid a'n penderfyniadau, gan gynnwys ein hasesiad terfynol o effaith yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei baratoi ar gyfer swyddogaeth ymgynghorol, a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad ar weithredu'r argymhellion y mae'n eu cynnwys.

A2.3 Byddwn yn cynnal asesiad effaith pellach wrth lunio'r adroddiad.

## Dyletswyddau cyffredinol

A2.4 Fel y nodir yn Atodiad 3, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar Ofcom wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. Rydym o'r farn bod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn y datganiad hwn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hynny. Fel y nodwyd uchod, mae'r Datganiad Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi at ddibenion paratoi cyngor, a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu ar weithrediad yr argymhellion yn ein hadroddiad. Bydd cael egwyddorion clir a phriodol y byddwn yn seilio ein hadroddiad arnynt yn sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wybodaeth lawn a phriodol i seilio ei benderfyniadau dynodi arni, gan helpu i gyflawni'r amcan o sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang. Felly, rydym o'r farn y bydd yr egwyddorion a'r dulliau yn Atodiad 1 yn hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol.[148]

A2.5 Wrth gwblhau'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau rydym wedi ystyried ein dyletswyddau statudol gan gynnwys y pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol ac anghenion pobl ag anableddau.[149] Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgarwch rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a'u bod ond yn targedu'r

[147] Ofcom, Canllawiau asesiad effaith, 2023.
[148] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[149] Adran 3(4)(a), (d) ac (i) o'r Ddeddf.

achosion hynny lle mae angen cymryd camau gweithredu.[150] Fe wnaethom ymgynghori ar ein hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig, ac rydym wedi ystyried ac ymateb i ymatebion rhanddeiliaid yn y ddogfen hon. Mae'r rhesymau dros ein penderfyniadau wedi'u nodi yn y datganiad hwn.

A2.6 Rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth benderfynu ar y Datganiad Egwyddorion a Dulliau. Byddwn yn parhau i ystyried y ddyletswydd twf economaidd wrth baratoi ein hadroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym o'r farn y bydd yr egwyddorion a'r dulliau rydym wedi'u sefydlu yn sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau mai dim ond pan fydd angen hynny y bydd camau rheoleiddio'n cael eu cymryd a bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur, gan gydnabod bod arloesi a chystadleuaeth yn sbarduno twf economaidd.[151]

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A2.7 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[152]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A2.8 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[153]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A2.9 Fel y nodir uchod, mae'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi mewn perthynas â swyddogaeth gynghori. Fe wnaethom egluro yn Atodiad 2 i'n hymgynghoriad nad oeddem yn disgwyl i'r egwyddorion a'r dulliau arfaethedig gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb. Fe wnaethom nodi mai un o ddibenion y drefn newydd yw mynnu bod nodweddion hygyrchedd ar TSS sy'n cael eu dynodi, a bydd hyn o fudd i ddefnyddwyr y TSS hyn sydd ag anableddau.

A2.10 Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad. Fel y nodir yn y datganiad hwn, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau fel y cynigir ac felly'n cadarnhau nad ydym yn disgwyl iddynt gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb.

A2.11 Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A2.12 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[154] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r

[150] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[151] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.
[152] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[153] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.
[154] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[155] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A2.13 Fe wnaethom egluro yn Atodiad 2 i'n hymgynghoriad ein bod yn ystyried na fyddai'r egwyddorion a'r dulliau arfaethedig yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Fe ddywedom ein bod yn disgwyl y bydd y drefn newydd o fudd i siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg.

A2.14 Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad. Fel y nodir yn y datganiad hwn, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau fel y'u cynigir ac felly'n cadarnhau nad ydym yn disgwyl iddynt drin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg na chael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

A2.15 Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth gynhyrchu ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

[155] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A3. Fframwaith Cyfreithiol

## Y fframwaith cyfreithiol

A3.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau dethol teledu o dan Ran 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r Atodiad hwn, nid yw'n cymryd lle cyfeirio at y statud.

A3.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom hefyd yn berthnasol o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[156] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; anghenion pobl ag anableddau.[157]

A3.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n gyfystyr â'r ymarfer rheoleiddio gorau.[158]

A3.4 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, bydd yn rhaid i TSS sy'n cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (TSS neu RTSS a reoleiddir) gydymffurfio ag amrywiol rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni ar y rhyngrwyd (IPS)[159] darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU sy'n cael eu dynodi gan Ofcom (IPS dynodedig neu DIPS) ar gael ac yn amlwg. [160]

A3.5 Mae gan bob PSB gylch gwaith unigol y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.[161] Mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy

[156] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[157] Adran 3(4)(a), (d) ac (i) o'r Ddeddf.
[158] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[159] Mae IPS yn gyfeiriad at (a) wasanaeth rhaglenni ar-alw lle mae'r defnyddiwr yn cael mynediad at y rhaglenni sy'n cael eu gwylio gan ddefnyddiwr y gwasanaeth drwy'r rhyngrwyd; (b) gwasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU lle mae'r rhaglenni sy'n cael eu gwylio gan ddefnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu cyrchu gan y defnyddiwr drwy'r rhyngrwyd; neu (c) gwasanaeth sy'n bodloni'r gofynion canlynol: (i) mai prif bwrpas y gwasanaeth yw darparu rhaglenni; (ii) bod y rhaglenni gaiff eu gwylio gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cyrchu gan y defnyddiwr drwy'r rhyngrwyd; a (iii) bod y rhaglenni mae'n eu darparu i ddefnyddiwr gwasanaeth yn gynwysedig yn (1) y cyfryw wasanaeth rhaglenni ar-alw a ddisgrifir yn rhan (a) y troednodyn hwn neu wasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU fel y'i disgrifir yn rhan (b) y troednodyn hwn; a (2) gwasanaeth arall sydd, neu ddau wasanaeth arall neu ragor y mae pob un yn, wasanaeth rhaglenni ar-alw o'r fath, wasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU o'r fath, neu wasanaeth (ar wahân i'r mathau hynny o wasanaethau) sy'n cynnwys, neu ei brif bwrpas yw darparu, rhaglenni (adran 362AA(10) a (11) y Ddeddf).
[160] DIPS yw (a) IPS sy'n cael ei ddarparu gan y BBC; (b) IPS sy'n cael ei ddarparu gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar wahân i'r BBC ac sydd wedi'i ddynodi gan Ofcom; neu (c) IPS sy'n cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n gysylltiedig â darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ac sydd wedi'i ddynodi gan Ofcom (adran 362AA(1) y Ddeddf).
[161] Ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, dylai'r rhaglenni maen nhw'n cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol gyda nhw allu cael eu hystyried at ddibenion asesu i ba raddau mae'r cylch gwaith teledu yn y DU yn

ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[162] Cylch gwaith unigol gwasanaethau Channel 3, S4C a Channel 5 yw sicrhau bod amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael.[163] Cylch gwaith unigol S4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael, gyda chyfran sylweddol ohonynt yn Gymraeg.[164]

## Gwasanaethau dethol teledu

A3.6 Cyfeirir at y gwasanaethau y gellir eu dynodi fel TSS. Mae'r Ddeddf yn diffinio TSS fel "gwasanaeth neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth, a ddarperir drwy gyfrwng y rhyngrwyd ac mewn cysylltiad ag Offer Teledu Rhyngrwyd (ITE), sy'n cynnwys:

a) cyflwyno'r IPS a gynhwysir yn y gwasanaeth neu adran ddatgysylltiol y gwasanaeth; a

b) chyfleuster sy'n galluogi'r defnyddiwr i wneud y canlynol: (i) dewis rhwng yr IPS neu'r rhaglenni hynny a ddarperir gan yr IPS hynny neu'r ddau; a (ii) cael mynediad i'r IPS neu'r rhaglen a ddewiswyd neu'r ddau. [165]

A3.7 Fel y nodir yn Rheoliad 2 Rheoliadau ITE 2024, mae ITE yn golygu setiau teledu clyfar, blychau pen-set a dyfeisiau ffrydio.[166]

## Gwasanaethau dethol teledu a reoleiddir

A3.8 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddynodi TSS i gael ei reoleiddio ac felly'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau statudol a nodir yn y Ddeddf. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sydd yn:

a) dynodi TSS unigol (y cyfeiriwn ato fel 'dynodiad unigol'); neu

b) nodi disgrifiad o'r TSS sydd i'w ddynodi (y cyfeiriwn ato fel 'dynodiad drwy ddisgrifiad').[167]

A3.9 Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi TSS drwy ddynodiad unigol oni bai ei fod yn credu ei fod yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o'r cyhoedd yn y DU.[168]

A3.10 Mewn rheoliadau sy'n dynodi drwy ddisgrifiad, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol lunio disgrifiad o'r TSS drwy gyfeirio at:

a) TSS yn cael ei ddefnyddio gan ddim llai na'r nifer o aelodau o'r cyhoedd yn y DU a bennir yn y rheoliadau;

b) y dyddiad pan fydd TSS ar gael am y tro cyntaf i aelodau o'r cyhoedd yn y DU; a'r

c) swyddogaethau y gall TSS eu cyflawni, neu mae'n bosibl iddo allu eu cyflawni.[169]

---

cael ei gyflawni, a dylai fod yn gyfraniad digonol at gyflawni'r cylch gwaith teledu yn y DU (adran 264(4) y Ddeddf).

[162] Paragraff 5 Y Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Rhagfyr 2016.

[163] Adrannau 265(2) a 265(3) o'r Ddeddf. Ar gyfer S4C rhaid i'r rhaglenni hyn yn benodol ddangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd; mae apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol yn cynnwys llawer iawn o gynnwys addysgol; a gyda chymeriad unigryw.

[164] Paragraff 3(2) Rhan 2 Atodlen 12 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[165] Adran 362AE(1) o'r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "wasanaeth dethol teledu" neu "offer teledu rhyngrwyd" (adran 362AE(7)).

[166] The Internet Television Equipment Regulations 2024 (2024/1056).

[167] Adran 362AF(1) o'r Ddeddf.

[168] Adran 362AF(2) o'r Ddeddf.

[169] Adran 362AF(3) o'r Ddeddf.

## Adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol

A3.11 Cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu gwneud rheoliadau dynodi, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom, sy'n cynnwys argymhellion Ofcom ar ymarfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol o'u pwerau i wneud rheoliadau i ddynodi'n unigol neu i ddynodi drwy ddisgrifiad.

A3.12 Caiff Ofcom benderfynu ar ei liwt ei hun i ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a gall wneud argymhellion mewn perthynas ag arfer y naill bŵer neu'r llall o, neu'r ddau.[170] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae'n rhaid i ni ddarparu un.[171] Wrth wneud cais o'r fath, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi disgrifiad o'r TSS y mae'n bwriadu ei ddynodi i Ofcom a gofyn am gyngor ar y disgrifiad hwnnw.

A3.13 Os argymhellir dynodiad unigolyn, rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o'r canlynol:

a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r TSS dan sylw ac a yw'r nifer hynny'n sylweddol;

b) y modd y mae'r TSS hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y personau hynny;

c) a yw'r TSS hwnnw'n gallu gweithredu fel RTSS wedi'i reoleiddio a'r addasiadau, os o gwbl, sydd eu hangen iddo allu gwneud hynny; ac

d) unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod.[172]

A3.14 Os yn argymell dynodiad drwy ddisgrifiad, rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o'r canlynol:

a) pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad o TSS a nodir yn yr adroddiad; ac

b) unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad hwnnw.[173]

A3.15 Mae rôl Ofcom o ran paratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i chyfyngu i argymhellion ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi TSS. Nid oes pŵer statudol i Ofcom ei hun ddynodi TSS.[174]

A3.16 Bydd unrhyw TSS a ddynodir gan reoliadau dynodiad unigol yn dod yn RTSS. Bydd unrhyw TSS sy'n bodloni disgrifiad a nodir mewn rheoliadau dynodi drwy ddisgrifiad yn dod yn RTSS, a rhaid i ddarparwr TSS[175] roi hysbysiad i Ofcom os yw'r TSS yn, neu'n dod yn TSS a

---

[170] Adran 362AG(1) o'r Ddeddf.

[171] Adran 362AG(2) a (3) o'r Ddeddf.

[172] Adran 362AG(4) o'r Ddeddf.

[173] Adran 362AG(5) o'r Ddeddf.

[174] Mae'r sefyllfa'n wahanol o ran dynodi IPS, lle mae gan Ofcom y pŵer i ddynodi IPS ei hun (adran 362AA(2) o'r Ddeddf).

[175] Yr unig berson sydd i'w drin fel rhywun sy'n darparu TSS yw'r person sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr. Mae hyn yn wir ni waeth a yw'r TSS yn defnyddio algorithm i bennu'r amlygrwydd a roddir i ISP neu unrhyw raglenni a ddarperir gan ISP sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth (adran 362AE(5) a (6) o'r Ddeddf).

gwmpesir gan y disgrifiad.[176] Yn yr un modd, rhaid i unrhyw RTSS roi hysbysiad pan fo o'r farn nad yw mwyach yn cael ei gwmpasu gan yn y disgrifiad a bennir yn y rheoliadau.[177]

## Datganiad Ofcom o Egwyddorion a Dulliau

A3.17 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud argymhellion ynghylch arfer ei bwerau i wneud rheoliadau dynodi.[178]

A3.18 Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw a rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd.[179]

## Effaith dynodiad

A3.19 Pan fydd IPS a TSS yn cael eu dynodi, rhaid i ddarparwyr y DIPS a'r RTSS hynny gydymffurfio â'r drefn newydd. Darparwr DIPS fydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol, neu'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw.[180] Darparwr RTSS fydd yr unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r TSS yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr.[181]

A3.20 Er mwyn i IPS sy'n cael ei gynnig gan PSB, ar wahân i'r BBC, gael ei ddynodi, rhaid i Ofcom fod yn fodlon ei bod yn briodol i ddynodi'r gwasanaeth. Rhaid i Ofcom hefyd gredu bod y gwasanaeth yn gwneud, neu pe bai'n cael ei ddynodi, yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus; a bod cynnwys y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i ymgorffori yn hawdd i'w ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS.[182]

A3.21 Bydd darparwyr DIPS yn rhwym wrth rwymedigaeth "rhaid cynnig", a bydd darparwyr RTSS yn rhwym wrth rwymedigaeth "rhaid darparu":

A3.22 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid cynnig" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr DIPS gynnig ei DIPS i bob darparwr RTSS.[183] Rhaid i'r darparwr DIPS wneud ei orau i sicrhau, mewn perthynas â phob RTSS, bod cytundebau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y RTSS.[184]

A3.23 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid darparu" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr RTSS, mewn perthynas â phob DIPS, ymrwymo i drefniadau gyda darparwr y DIPS er mwyn i'r RTSS

---

[176] Adran 362AH o'r Ddeddf. Mae TSS wedi'i ddynodi ac yn ddarostyngedig i rwymedigaethau statudol RTSS cyn gynted ag y bydd yn bodloni disgrifiad mewn rheoliadau, p'un a yw'r darparwr perthnasol yn rhoi gwybod i Ofcom ai peidio. Byddai methu â hysbysu Ofcom yn torri'r ddyletswydd yn adran 362AH; byddai methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol yn achos ar wahân o dorri'r dyletswyddau perthnasol.
[177] Ar ddechrau'r drefn newydd, bydd Ofcom yn cyhoeddi ac yn cynnal rhestr gyfredol o RTSS (gan gynnwys y darparwyr RTSS). Bydd y rhestrau'n cael eu cyhoeddi ar ran o wefan Ofcom sydd ar gael i'r cyhoedd (adran 362AI y Ddeddf).
[178] Adran 362AG(9) o'r Ddeddf.
[179] Adran 362AG(10) o'r Ddeddf.
[180] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.
[181] Adran 362AE(5) o'r Ddeddf. Mae adran 362AE(6) o'r Ddeddf yn dweud nad yw'r ffaith bod TSS yn dibynnu i unrhyw raddau ar algorithmau i bennu'r amlygrwydd a roddir i IPS neu unrhyw raglen a ddarperir gan yr IPS yn atal unigolyn rhag cael rheolaeth gyffredinol.
[182] Adran 362AA(2) - (5) o'r Ddeddf.
[183] Adran 362AJ(1) o'r Ddeddf. Nid yw adran 362AJ(1) i (3) yn berthnasol i'r BBC.
[184] Adran 362AJ(2) o'r Ddeddf.

gynnwys y DIPS hwnnw a chadw trefniadau o'r fath mewn grym.[185] Bydd yn rhaid i ddarparwyr RTSS hefyd sicrhau bod y DIPS a, lle bo'n briodol, cynnwys ar y DIPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gwaith y PSB yn cael lefel briodol o amlygrwydd ar eu gwasanaethau.[186] Rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd fod ar gael i'r rheini sydd ag anableddau (yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar olwg neu glyw).[187] Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n argymell y camau y dylai darparwyr RTSS eu cymryd wrth geisio sicrhau bod cyflwyno IPS i'w ddefnyddwyr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hygyrchedd hynny.[188]

A3.24 Mae dyletswydd ar ddarparwyr DIPS a RTSS i weithredu'n gyson â'r "amcanion cytundeb" wrth negodi'r trefniadau sy'n ofynnol i fodloni gofynion eu rhwymedigaethau "rhaid darparu" a "rhaid cynnig".[189] Amcanion y cytundeb yw: (a) mae DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd mewn RTSS (sy'n cynnwys unrhyw gynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ac unrhyw sianel wedi'i rhestru sydd wedi'i chynnwys yn y DIPS);[190] (b) nid yw'r trefniadau rhwng y darparwyr yn cael effaith niweidiol ar allu darparwr y gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ei sianel; ac (c) nid yw'r trefniadau'n cyfyngu'n anghymesur ar sut y gall darparwr RTSS wneud datblygiadau arloesol yn y ffyrdd y gall defnyddwyr ddewis a chael mynediad at IPS.[191] Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut gall darparwyr DIPS a darparwyr RTSS weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb.[192]

A3.25 Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth datrys anghydfod[193] a phwerau gorfodi i Ofcom.[194]

## Dyletswydd twf economaidd

A3.26 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a

b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[195]

A3.27 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A3.28 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu,

[185] Adran 362AK o'r Ddeddf.
[186] Adran 362AO(1) a (3) o'r Ddeddf.
[187] Adran 362AO(4) o'r Ddeddf.
[188] Adran 362AP(1) o'r Ddeddf.
[189] Adrannau 362AJ(3) a 362AK(2) o'r Ddeddf.
[190] Adran 362AM(2) o'r Ddeddf.
[191] Adran 362AM(1) o'r Ddeddf.
[192] Rhaid i ganllawiau Ofcom hefyd gynnwys sut gall y BBC weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb wrth gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan Siarter a Chytundeb y BBC, sy'n debyg i'r gofyniad ar ddarparwyr DIPS eraill (yn Adran 362AL(2) o'r Ddeddf) o dan Adran 362AJ(3) o'r Ddeddf.
[193] Adrannau 362AT i 362AY o'r Ddeddf.
[194] Adrannau 362AZ i 362Z5 o'r Ddeddf.
[195] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny. Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A3.29 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio[196] Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A3.30 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

[196] https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations/wales/hysbysiad-cydymffurfio44-y-swyddfa-gyfathrebiadau-cy.pdf?v=370650